Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

**Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020**

# Matrics Themâu Trawsbynciol

# Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2014 – 2020

Dyddiad: Mawrth 2020

Gwefan: https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-canllawiau-prosiectau?_ga=2.202825689.917460492.1583238260-397661037.1549
E-bost: enquiries-wefo@.gov.wales | Ffôn: 0845 010 3355

# Cynnwys


Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ....4

Echel Flaenoriaeth 1 – Ymchwil ac Arloesi ....5

Echel Flaenoriaeth 2 – Cystadleurwydd BBaChau....23

Echel Flaenoriaeth 3 – Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni....35

Echel Flaenoriaeth 4 – Cysylltedd a Datblygu Trefol....52

Dwyrain Cymru....70

Echel Flaenoriaeth 1- Ymchwil ac arloesi....71

Echel Flaenoriaeth 2 – Cystadleurwydd BBaChau....93

Echel Flaenoriaeth 3 – Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni....105

Echel Flaenoriaeth 4 – Cysylltedd....122

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw – Cysylltiadau a Chyfeiriadau Gwybodaeth Defnyddiol ....139

Cod Eco ....142

# Cyflwyniad

**DYLID DARLLEN Y CANLLAWIAU HYN AR Y CYD Â DOGFEN GYFARWYDDYD ALLWEDDOL THEMÂU TRAWSBYNCIOL CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP 2014-2020.**

Y Themâu Trawsbynciol i'w hintegreiddio yn Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yng Nghymru yw: Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

Wrth ddylunio gweithrediadau, dylai buddiolwyr nodi'r newid y maent yn ceisio'i gyflawni a sut y mae hyn yn cyfrannu at nod yr Amcan Penodol a'r canlyniad y mae wedi'i fwriadu i'w achosi, fel a eglurir yn y Rhaglen Weithredol. Wrth ddylunio gweithgarwch i achosi'r canlyniad hwn a ddymunir, dylai'r holl weithrediadau integreiddio'r themâu trawsbynciol yn eu gweithgarwch. Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i gefnogi'r rhai sy'n datblygu 'gweithrediadau' ac yn asesu 'gweithrediadau' i ddeall sut y gellir integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn gweithgarwch, gan roi manylion am y dangosyddion a'r targedau (lle y bo'n briodol) ar gyfer pob un o'r themâu trawsbynciol, ochr yn ochr â rhestr o'r mathau posibl o gamau gweithredu y dylid eu cymryd i alluogi'r themâu trawsbynciol i ychwanegu gwerth at nod cyffredinol y 'gweithrediad'.

**CYFARWYDDIADAU AR GYFER DEFNYDDIO'R CANLLAWIAU.**

Er mwyn helpu gweithrediadau (prosiectau yn flaenorol) i gyflawni ar y themâu trawsbynciol, mae set o gamau gweithredu Penodol wedi'i chynnwys ar gyfer pob blaenoriaeth. Ni fydd pob cam gweithredu penodol yn berthnasol i bob gweithrediad. Dylech ddewis y rhai sy'n gweddu orau i'r gweithgaredd rydych yn gwneud cais am gyllid ar ei gyfer. Ceir set o gamau gweithredu generig hefyd, a gall y mwyafrif o weithrediadau gyfrannu at y rhain.

*** DARPERIR DIFFINIADAU YN Y RHESTR TERMAU**
**http://gov.wales/docs/wefo/publications/150422cctGlossarycy.pdf**

# Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
# ERDF
# 2014-2020

# Echel Flaenoriaeth 1 – Ymchwil ac Arloesi

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Gwella'r isadeiledd ymchwil ac arloesi a galluoedd i ddatblygu rhagoriaeth mewn ymchwil ac arloesi a hybu canolfannau cymhwysedd, yn enwedig y rhai sydd o ddiddordeb Ewropeaidd.

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru o ran denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu buddsoddiadau gan fusnesau mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu ac addysg uwch, yn enwedig datblygu cynnyrch a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesi agored drwy Arbenigo Craff a chefnogi ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithredoedd i ddilysu cynnyrch yn gynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol a lledaenu technolegau diben cyffredinol.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu'r arfer o fynd ati'n llwyddiannus i drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol gwell, yn enwedig drwy drosglwyddo technoleg yn well o Sefydliadau Addysg Uwch.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 1 a 2 (AP1 ac AP2):**<br><br>**Menywod i mewn i Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ac Ymchwil ac Arloesi**<br><br>• Roedd y strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru' gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r ymchwil gan y Gymdeithas Frenhinol a oedd yn dangos y gyfran isel o fyfyrwyr yng Nghymru sy'n dewis bioleg, cemeg a mathemateg ar gyfer Safon Uwch. Mae hefyd wedi sefydlu Tasglu 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' i archwilio'r rhwystrau (a'r datrysiadau posibl) sy'n bodoli i fenywod sy'n astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)[1] yng Nghymru. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 2 (AP2):**<br><br>• I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r buddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol.<br><br>• Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br><br>• Darperir templed enghreifftiol yn yr atodiad wrth y canllawiau hyn ac mae'n enghreifftio amrywiaeth o | **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol dan Flaenoriaeth 1.** |

[1] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth http://gov.wales/topics/science-and-technology/science/women-in-science/?skip=1&lang=cy

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Hefyd mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod cydraddoldeb mewn ymchwil ac arloesi'n elfen allweddol o Horizon 2020 a'i fod yn cael ei brif ffrydio fel mater trawsbynciol drwyddi draw yn y rhaglen.<br><br>• Dylai gweithgarwch yn y maes hwn gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i gefnogi cyfranogiad gan fenywod a lle y bo'n bosibl mynd ati mewn ffordd weithredol i geisio cefnogi'r arfer o gael modelau rôl benywaidd yn gweithio ar brosiectau.[2]<br><br>• Dylai gweithrediadau, lle y bo'n bosibl, ymdrechu i gynyddu nifer y menywod sy'n cyfranogi ac sy'n aros mewn gwyddoniaeth, gweithredu polisïau cydbwysedd bywyd a gwaith, lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a dymchwel rhwystrau sy'n atal cynnydd yng ngyrfa menywod.[3] | gamau gweithredu y dylai'r Cod Eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad a byddent yn benodol i weithgareddau'r 'gweithrediadau'. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed. | |

[2] Siarter Athena Swan – 'Advancing Women's careers in STEM' http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
[3] Comisiwn yr UE (2019) 'The European Research Area: advancing together the Europe of research and innovation' https://ec.europa.eu/transparency/regdoc/?fuseaction=list&coteId=1&year=2019&number=83&version=ALL&language=en

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Dylai cydbwysedd rhwng y rhywiau fod yn ystyriaeth allweddol hefyd wrth sefydlu byrddau, pwyllgorau a thimau ymchwil a dylai Gweithrediadau ystyried bod ag isafswm rhaniad o 40% / 60% ar bob un[4].<br>• Dylai integreiddio dadansoddiad rhyw/rhywedd mewn cynnwys ymchwil ac arloesi eistedd ochr yn ochr ag integreiddio dadansoddiad mwy sefydledig. | | |

[4] Comisiwn yr UE (2011) 'Structural Change in Research Institutions Enhancing excellence, gender equality and efficiency in research and innovation http://ec.europa.eu/research/science-society/document_library/pdf_06/structural-changes-final-report_en.pdf

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r dangosydd canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 2:**<br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau a'u systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth **(AP2).**<br>• **Bydd prosiectau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1 yn cyfeirio mentrau at y prosiect Porth Arloesi Clyfar i gyflawni'r dangosyddion trawsbynciol** | **Mae'r dangosydd canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 2:**<br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy **(AP2).**<br>**Bydd prosiectau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1 yn cyfeirio mentrau at y prosiect Porth Arloesi Clyfar i gyflawni'r dangosyddion trawsbynciol** | **Nid oes dangosyddion ar gyfer thema drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol dan Flaenoriaeth 1.** |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[5]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. | • **Datblygu a hyrwyddo technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.** Gallai datrysiadau arloesol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd[13] fod ar ffurf strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol gwell, technolegau newydd a allai gynyddu cadwraeth ynni*, technolegau a allai ostwng allyriadau neu dechnolegau a allai ddarparu ffynonellau newydd neu well ar gyfer ynni adnewyddadwy glân*.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael | |

[5] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf.

[13] Llywodraeth Cymru: Newid Hinsawdd https://llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.165680374.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| | | |
|---|---|---|
| Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[6]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[7] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu; | cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau a sawl astudiaeth achos.[14]<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Dim datblygu amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.** Rhaid i unrhyw 'weithrediad' sydd â'r potensial i niweidio safle o bwysigrwydd rhyngwladol (yn ôl y diffiniad yn Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994)[15] gynnal 'Asesiad Priodol'.<br>Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth | |

[6] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications
[7] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[14] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP https://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2
[15] Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994 http://www.opsi.gov.uk/SI/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm

| | | |
|---|---|---|
| - yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[8]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi | Natur[16] yn enwedig Atodiad 6 sy'n disgrifio'r broses asesu mewn mwy o fanylder. Rhaid i'r asesiad hwn fod ar wahân i unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol* sy'n cael ei gynnal. Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn y troednodyn[17].<br><br>• **Ni fydd 'gweithrediadau' y dangoswyd eu bod yn niweidio safle a warchodir yn rhyngwladol neu'n genedlaethol yn cael eu cefnogi.** Bydd 'gweithrediadau' sydd â'r potensial i niweidio unrhyw safle dynodedig gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE*)[18], Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA*)[19] safleoedd RAMSAR*[20], safleoedd Natura 2000*, gwarchodfeydd natur cenedlaethol a morol ac ardaloedd gwarchodedig o bwysigrwydd lleol a ddynodwyd gan | |

[8] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf
[16] TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur
[17] Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol https://llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-asesiadau-effaith
[18] Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru: https://www.visitwales.com/things-do/nature-landscapes/welsh-areas-outstanding-natural-beauty
[19] Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru: https://www.gov.uk/check-your-business-protected-area
[20] Safleoedd RAMSAR yng Nghymru: http://jncc.defra.gov.uk/page-1392

| | | |
|---|---|---|
| eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[9], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[10]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb. | Ymddiriedolaethau Natur[21] lleol yn cael arfarniad trylwyr gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac yn cael eu hatgyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[22] ar gyfer asesiad.<br><br>• **Datblygu safleoedd tir llwyd[23] o werth ecolegol isel lle bynnag y bo'n bosibl:** Os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys creu cyfleusterau neu safle ymchwil newydd, dylai ffocws ar adfer ac adnewyddu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol isel sy'n adfeiliedig ac nas defnyddir ddigon neu ailddefnyddio adeiladau presennol fod yn flaenoriaeth, yn hytrach na datblygu safleoedd maes glas neu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol sylweddol. Mae datblygiad tir llwyd wedi'i ddylunio'n dda yn fwy tebygol o integreiddio a bod yn gydnaws â'r ardal o'i gwmpas. Bydd hefyd yn gallu manteisio ar wasanaethau cymunedol presennol megis cludiant cyhoeddus. Byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw 'weithrediad' sy'n datblygu safle maes | |

[9] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[10] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
[21] Ymddiriedolaethau Natur Cymru: http://www.wtwales.org/
[22] Cyfoeth Naturiol Cymru http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/?lang=cy
[23] Tudalen we adran gynllunio Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/?skip=1&lang=cy

| | | |
|---|---|---|
| • Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[11]<br><br>Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[12] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof a helpu i gynyddu i'r eithaf y potensial ar gyfer gwerthu'r cynnyrch ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol | glas* (neu safle tir llwyd o werth ecolegol sylweddol) ddarparu tystiolaeth nad oedd safle tir llwyd arall sy'n addas ac sydd o werth ecolegol isel ar gael.<br><br>• **Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'.** Gall isadeiledd gwyrdd[24] neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun".<br><br>• Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â | |

[11] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb
[12] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[24] Ymddiriedolaethau Natur – Seilwaith Gwyrdd http://www.wtwales.org/sites/default/files/wtw_green_infrastucture_welsh_final.pdf

| | | |
|---|---|---|
| | systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).<br>***<u>Ardal wedi'i neilltuo ar gyfer blodau gwyllt ar bwys eiddo preswyl:</u>***<br><br>***©PeterFrost CNC***<br>***<u>Rhandiroedd Cymunedol</u>***<br><br>***©PeterFrost CNC*** | |

***To Gwyrdd***



***©Pixabay***

***Gwesty Pryfed***



***©Pixabay***

| | | |
|---|---|---|
| | • **Cadw a hybu bioamrywiaeth ar y safle hyd y gellir:** Rhaid cynnal ymarfer sgrinio bioamrywiaeth gan ddefnyddio Offeryn Meincnod Bioamrywiaeth yr Ymddiriedolaethau Natur[25] os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys codi adeilad newydd neu adnewyddu adeilad. Rhaid cynnal Arolwg Cynefinoedd Cam 1[26] os yw'r safle'n debygol o gefnogi cynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr (ee y rhai a restrir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU[27], Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad[28] neu Reoliadau Cynefinoedd y DU 1994).<br><br>• **Camau gweithredu i hybu bioamrywiaeth ar y safle.** Mae'r rhain yn cynnwys: gwarchod unrhyw nodweddion naturiol a bywyd gwyllt ar y safle, megis coed aeddfed presennol, gwrychoedd neu byllau. Gallai gwaith tirlunio pellach ddefnyddio rhywogaethau planhigion sy'n frodorol i'r ardal ac yn nodweddiadol ohoni. Dylid cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i greu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd ar y safle, yn | |

[25] Ymddiriedolaethau Natur – Offeryn Meincnod Bioamrywiaeth: http://www.wildlifetrusts.org/biodiversitybenchmark
[26] Cydbwyllgor Cadwraeth Natur – Llawlyfr Arolygon Cynefinoedd Cam 1: http://jncc.defra.gov.uk/page-2468
[27] Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU: http://jncc.defra.gov.uk/ukbap
[28] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad: http://jncc.defra.gov.uk/page-1377

| | | |
|---|---|---|
| | enwedig ar gyfer rhywogaethau sensitif sydd o bosibl wedi cael eu dadleoli o ganlyniad i'r datblygiad.<br><br>• **Cynllunio ar gyfer integreiddio'r datblygiad gymaint â phosibl o fewn y gymuned gyfagos bresennol:** Dylai dyluniad y safle fod yn seiliedig ar arfarniad cadarn o'r ardal gyfagos, gan ei gwneud yn bosibl integreiddio'r datblygiad yn y gymuned gymaint â phosibl. Dylai'r safle ddarparu cysylltiadau da ag ardaloedd cyfagos.<br><br>• **Integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.** Gallai fod yn bosibl gosod technoleg i gynhyrchu ynni adnewyddadwy megis gwresogyddion dŵr solar*, paneli solar ffotofoltaidd*, gwresogi biomas* neu dyrbinau gwynt*.<br><br>• **Datblygu technolegau arloesol i hybu cludiant cynaliadwy.** Byddai ymchwil i dechnolegau newydd i hybu cludiant mwy cynaliadwy (megis celloedd tanwydd hydrogen* neu systemau bio-nwy/biodiesel*) a chymhwyso'r technolegau hynny, yn dwyn manteision amgylcheddol yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | ogystal â manteision economaidd sylweddol o bosibl yn y dyfodol.<br><br>• **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded.<br><br>• **Ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio.** Dylai 'gweithrediadau' ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio lle bynnag y bo'n bosibl.<br><br>• **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu, gweithredu neu wella strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu | |

| | | |
|---|---|---|
| | a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[29].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau'n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i 'weithrediadau' gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle.<br><br>• **Dyluniad sy'n ysgogi galw isel am ynni:** Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn ddi-garbon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn amcanu at gael sgôr 'Rhagorol' mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE) neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr 'Rhagorol' | |

[29] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| | | |
|---|---|---|
| | gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni:** Gellir cyflawni hyn drwy gynnal ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; hybu dulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni a darparu grantiau ar gyfer BBaChau/sefydliadau i fabwysiadu mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni. Gall mesurau o'r fath gynnwys deunyddiau inswleiddio gwell, technolegau goleuo a gwresogi ynni-effeithlon megis switshis sy'n sensitif i amser ac unedau gwres a phŵer cyfunedig.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr | |

| | | |
|---|---|---|
| | hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediad adeiladu. | |

| **Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig.** |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad' |

# Echel Flaenoriaeth 2 – Cystadleurwydd BBaChau

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu entrepreneuriaeth, yn enwedig drwy hwyluso'r arfer o fanteisio'n economaidd ar syniadau newydd a meithrin y broses o greu cwmnïau newydd, gan gynnwys drwy ddeorfeydd busnes

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu swm y cyllid sydd ar gael i BBaChau ar gyfer cychwyn busnesau ac ar gyfer ehangu busnesau.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi gallu BBaChau i dyfu mewn marchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac ymwneud â phrosesau arloesi

AMCAN PENODOL 3: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn manteisio ar rwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf ac isadeiledd TGCh.

AMCAN PENODOL 4: Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (cartref a rhyngwladol).

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu buddsoddiadau gan fusnesau mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu a'r sector addysg uwch, yn enwedig datblygu cynnyrch a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesi agored drwy Arbenigo Craff a chefnogi ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithredoedd i ddilysu cynnyrch yn gynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol a lledaenu technolegau diben cyffredinol.

AMCAN PENODOL 5: Mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, i BBaChau yng Nghymru arloesi a masnacheiddio ymchwil a datblygu.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol (AP2) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â pherchnogion busnesau presennol a BBaChau newydd / entrepreneuriaid a darparu cymorth ar eu cyfer, yn enwedig unigolion o grwpiau a dangynrychiolir megis Menywod[30][31], Pobl Hŷn, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Anabl.<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ( AP1, AP2, AP4 ac AP5) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Rhoi cymorth ac/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn barod. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1, AP2, AP4 ac AP5) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Datblygu, hyrwyddo neu wella strategaeth datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn ysgogi arbedion economaidd, rheolaeth well a manteision amgylcheddol.<br><br>• I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r buddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1 ac AP2) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Ceisio ymgysylltu ag unigolion na fyddent fel arfer yn ystyried dechrau busnes er mwyn hybu'r cyfle ac annog pobl i wneud hynny; gellid cyflawni hyn drwy gysylltu â mudiadau yn y trydydd sector, Grwpiau Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf, a grwpiau cymunedol/grwpiau gweithredu lleol gan y bydd hyn yn darparu cysylltiadau gweithio uniongyrchol â'r bobl ac arnyn fwyaf angen cymorth.<br><br>• Gweithio gyda sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach lleol i annog entrepreneuriaeth. |

[30] Chwarae Teg – Women into Enterprise https://www.cteg.org.uk/policy/enterprise//
[31] Yr UE – Encouraging women entrepreneurs http://ec.europa.eu/growth/smes/promoting-entrepreneurship/we-work-for/women

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Er enghraifft:<br>• Cyflogi staff cymwysedig o fewn eich Gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yng nghynllun busnes eich gweithrediadau.<br>• Cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ganddynt, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes ac/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd / fel a gytunwyd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) | | • Darparu cyfleoedd i unigolion gael profiad o redeg busnes, a gorau oll os yw'r profiad mewn maes busnes perthnasol. Ceisio sefydlu cysylltiadau â gweithrediadau ESF lle mae gan weithrediad nod i uwchsgilio unigolion a'u hannog i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur, er mwyn hybu'r posibiliadau o ran dod yn hunangyflogedig. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Datblygu 'Gwiriadau Iechyd[32]' ac offer Ar-lein[33] megis 'Aps' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed.<br><br>- Dylai gweithrediadau fynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio rhannu offer y maent wedi'u datblygu i gael eu defnyddio neu eu haddasu gan Weithrediadau eraill a gyllidir gan raglenni ERDF ac ESF. | • Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br><br>• Darperir templed enghreifftiol yn yr atodiad wrth y canllawiau hyn ac mae'n enghreifftio amrywiaeth o gamau gweithredu y dylai'r Cod Eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad a byddent yn benodol i weithgareddau'r 'gweithrediadau'. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed. | |

[32] Taflenni Ffeithiau themâu trawsbynciol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, cysylltwch â'r Tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[33] Taflenni Ffeithiau themâu trawsbynciol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, cysylltwch â'r Tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Datblygu 'Gwiriadau Iechyd' ac offer Ar-lein megis 'Aps' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth datblygu cynaliadwy sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed (cyfeirier at droednodyn rhif1 i gael rhagor o wybodaeth). | |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r dangosyddion hyn yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1, AP2, AP4 ac AP5) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau neu systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. | **Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1, AP2, AP4 ac AP5) dan Flaenoriaeth 2:**<br><br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy. | **Mae'r dangosydd canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1 ac AP2) dan Flaenoriaeth 2:**<br><br>• Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i bennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Nifer y mentrau newydd sydd wedi cael cymorth. |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol a chyflawni manteision cymunedol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[34]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. | amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau a sawl astudiaeth achos.[43]<br><br>• **Ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio.** Dylai 'gweithrediadau' ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio lle bynnag y bo'n bosibl. | |

[34] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf
[43] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAPhttp://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anableddl' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[35]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[36] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o | | |

[35] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications
[36] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[37]<br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt | | |

[37] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[38], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[39]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at | | |

[38] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[39] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[40][41]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[42] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod 'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad | | |

[40] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.90179418.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[41] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[42] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu. | | |

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Echel Flaenoriaeth 3 – Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu'r arfer o gynhyrchu a dosbarthu ynni a gafwyd o ffynonellau adnewyddadwy

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu nifer dyfeisiau ynni'r tonnau a'r llanw sy'n cael eu profi yn nyfroedd Cymru ac oddi ar arfordir Cymru, gan gynnwys defnyddio araeau â dyfeisiau lluosog, gan felly sefydlu Cymru fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni'r môr.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi effeithlonrwydd ynni, dulliau clyfar o reoli ynni a'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn isadeileddau cyhoeddus, gan gynnwys mewn adeiladau cyhoeddus ac yn y sector tai.

AMCAN PENODOL 3: Cynyddu effeithlonrwydd ynni'r stoc dai bresennol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw; sicrhewch eich bod yn cyfeirio at y camau gweithredu generig ar gyfer Blaenoriaeth 3** | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â gweithgarwch gan 'weithrediadau' dan AP 1 a 2 dan Flaenoriaeth 3:**<br>• Dan y flaenoriaeth hon mae'n bwysig ystyried y newid i economi rhad ar garbon. Mae system ynni sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy yn hanfodol i gynaliadwyedd economaidd Cymru yn y dyfodol. Wrth i danwyddau ffosil ddod yn fwy prin ac wrth i effeithiau negyddol eu hylosgi ddod yn fwy amlwg, ni all dibyniaeth barhaus ar danwyddau o'r fath fod yn opsiwn.<br><br>**<u>Camau gweithredu o ran Effeithlonrwydd Ynni:</u>**<br>• **Codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth am faterion ynni sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd:** Gall 'gweithrediadau' sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu tuag at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae dyluniad carbon isel, a mesurau o ran effeithlonrwydd/cadwraeth ynni ac ynni | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP2) dan Flaenoriaeth 3**<br>• Gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu setiau sgiliau a chynyddu hyder aelodau o'r gymuned i'w galluogi i ystyried cyfranogi mewn cynllun ynni.<br><br>• Ceisio paru grwpiau cymunedol presennol â grwpiau cymunedol newydd i ddarparu rôl fentora.<br><br>• Broceru ymgysylltiad rhwng grwpiau cymunedol sydd ar gamau tebyg er mwyn sefydlu / datblygu cysylltiadau gweithio da i rannu arfer gorau ac arbenigedd.<br><br>• Ymgysylltu â mudiadau yn y 3ydd sector, grwpiau cymunedol a Cymunedau am Waith+ sydd eisoes yn bodoli er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Ynni Cymunedol. Gellir gwneud hyn drwy fynychu, er enghraifft, digwyddiadau / Ffeiriau a digwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf a gaiff eu rhedeg yn lleol. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu unwaith y bydd y cefndir gwyddonol a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol wedi cael eu deall.<br><br>• **Dyluniad sy'n ysgogi galw isel am ynni:** Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn ddi-garbon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad <u>newydd</u> yn amcanu at gael sgôr 'Rhagorol' mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE) neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr 'Rhagorol' gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn. | •<br><br>• **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol (AP3) dan Flaenoriaeth 3:**<br><br>• Ymgysylltu â mudiadau yn y 3ydd sector, grwpiau cymunedol a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd penodol cyn dechrau ar brif ran y broses o ymgysylltu; gellid gwneud hyn drwy fynychu digwyddiadau / Ffeiriau cymunedol, ffeiriau ysgolion neu gyfarfodydd Rhieni a Llywodraethwyr neu ddigwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf a gaiff eu rhedeg yn lleol. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Datblygu a hyrwyddo mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni:** Gellir cyflawni hyn drwy gynnal ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; hybu dulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni a darparu grantiau ar gyfer BBaChau/sefydliadau i fabwysiadu mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni. Gall mesurau o'r fath gynnwys deunyddiau inswleiddio gwell, technolegau goleuo a gwresogi ynni-effeithlon megis switshis sy'n sensitif i amser ac unedau gwres a phŵer cyfunedig.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall systemau draenio cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, | • Cysylltu (lle y bo'n briodol) â'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf lleol gan fod nifer o glystyrau wedi cynhyrchu "Taflen Wybodaeth Cymunedau yn Gyntaf", gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/clusters/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/clusters/?skip=1&lang=cy) Mae'n galluogi contractwyr lleol i hybu mentrau eraill gan y Llywodraeth, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ynghylch Dyledion a Budd-daliadau a ddarperir yn lleol, a allai fod o gymorth gydag unrhyw faterion ariannol a all fod yn effeithio ar unigolyn.<br><br>• Rhoi cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen fabwysiadu mesurau arbed ynni yn eu cartrefi gan arwain at ostyngiad mewn lefelau tlodi tanwydd. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediadau adeiladu.<br><br>• **<u>Ynni'r Môr (Y Llanw* a'r Tonnau*)</u>** Wrth ystyried buddsoddiadau yn Ynni'r Môr cyfeiriwch at y wefan gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i neilltuo i Ynni'r Môr.<br><br>Mae'n hanfodol bod 'gweithrediadau' yn ystyried y canlynol wrth ddechrau adeiladu yn agos at y glannau neu ar y môr yng Nghymru:<br><br>• Cael Trwydded Forol;<br>• Cael Trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS);<br>• Cyfeirio at wybodaeth am reoliadau amrywiol ar echdynnu mwynau drwy garthu morol; | |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Ymwybyddiaeth o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;<br>• Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007;<br>• Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;<br>• Ymwybyddiaeth o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen we bwrpasol gan Lywodraeth Cymru sy'n dwyn y teitl Trwyddedu Morol ac y gellir cael mynediad ati drwy ddefnyddio'r ddolen isod. [44]<br><br>**Cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan / gymunedol.**<br>Bydd disgwyl i gynlluniau ategu gweithgarwch Rhaglen Ynni Cymru[45].<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo mentrau carbon isel:** Unwaith y mae'r holl fesurau posibl o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni wedi cael eu | |

[44] Trwyddedu Morol: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-licensing/?skip=1&lang=cy
[45] Adran Ynni Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/yr-amgylchedd-ar-newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.195140836.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | hymgorffori; gall mentrau Carbon isel wneud cyfraniad sylweddol tuag at y galw am ynni. Gall 'gweithrediadau' gynnal ymchwil i fentrau Carbon isel, datblygu neu gymhwyso technolegau, a hybu'r defnydd o ynni glân drwy grantiau i fentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol lle byddai angen cymorth ychwanegol yng nghyfnod cynnar y 'gweithrediad' i gyrraedd cam lle bydd buddsoddwyr eraill yn barod i fuddsoddi. Bydd cynlluniau'n cael eu hannog yn arbennig lle maent yn rhan o strategaethau Carbon-isel ar gyfer ardal benodol.<br><br>Mae'r mentrau Carbon-isel i'w hystyried ar gyfer cynlluniau ar raddfa fechan/ gymunedol yn cynnwys:<br><br>• Gwynt (ar y môr ac ar y tir);<br>• Solar (ffotofoltaidd*);<br>• Ynni'r Tonnau ac Ynni'r Môr.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau ynni adnewyddadwy yn TAN 8[46] ac ar y | |

[46] TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan8/?skip=1&lang=cy

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | dudalen we gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i neilltuo i Ynni[47]<br><br>**<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â 'gweithrediadau' â dangosyddion dan AP 3.</u>**<br><br>drwy<br>• **Datblygu a hyrwyddo technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.** Gallai datrysiadau arloesol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd[48] fod ar ffurf strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol gwell, technolegau newydd a allai gynyddu cadwraeth ynni*, technolegau a allai ostwng allyriadau neu dechnolegau a allai ddarparu ffynonellau newydd neu well ar gyfer ynni adnewyddadwy glân*. | |

[47] Adran Ynni Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/?skip=1&lang=cy
[48] Llywodraeth Cymru: Newid Hinsawdd https://llyw.cymru/yr-amgylchedd-ar-newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.195140836.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **<u>Camau gweithredu o ran Effeithlonrwydd Ynni:</u>**<br><br>• **Codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth am faterion ynni sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd:** Gall 'gweithrediadau' sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu tuag at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae dyluniad carbon isel, a mesurau o ran effeithlonrwydd/cadwraeth ynni ac ynni adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu unwaith y bydd y cefndir gwyddonol a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol wedi cael eu deall. | |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes unrhyw ddangosyddion ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw dan Flaenoriaeth 3** | **Nid oes unrhyw ddangosyddion ar gyfer Datblygu Cynaliadwy dan Flaenoriaeth 3, cyfeiriwch at yr adran camau gweithredu generig.** | **Mae'r dangosyddion canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 2) yn unig:**<br><br>Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i bennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Cynlluniau ynni cymunedol.<br><br>**Mae'r dangosyddion canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 3) yn unig:**<br><br>• Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran defnyddio ynni. |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[49]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol a chyflawni manteision cymunedol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau ac yn cynnwys astudiaethau achos.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r | |

[49] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[50]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn | cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br>• **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded.<br><br>• **Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'.** Gall isadeiledd gwyrdd neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i | |

[50] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ffformatau hygyrch[51] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>• <br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[52]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac | gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun".<br><br>• Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).<br><br>**Ardal wedi'i neilltuo fel Dôl Blodau Gwyllt ar bwys eiddo preswyl:**<br><br>*©PeterFrost CNC* | |

[51] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[52] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[53], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[54]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag | **<u>Rhandiroedd cymunedol</u>**<br><br>*©PeterFrost CNC*<br><br>**<u>To Gwyrdd</u>**<br><br>©Pixabay | |

[53] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[54] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[55][56]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoedus[57] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr | **<u>Gwesty Pryfed</u>**<br><br>*©Pixabay*<br><br>• **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu, gweithredu neu wella strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni'r amcan | |

[55] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.90179418.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[56] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[57] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| perthnasol i sicrhau bod<br><br>'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu. | hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[58].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau'n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i 'weithrediadau' gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle. | |

[58] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Echel Flaenoriaeth 4 – Cysylltedd a Datblygu Trefol

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi Ardal Drafnidiaeth Ewropeaidd Sengl amlfodd drwy fuddsoddi yn y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TENT-T).

AMCAN PENODOL 1: Mynd i'r afael â materion perifferoldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy welliannau i weithrediad y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T).

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu strategaethau carbon isel ar gyfer pob math o diriogaeth, yn enwedig ar gyfer ardaloedd trefol, gan gynnwys hybu symudedd trefol amlfodd cynaliadwy a mesurau addasu sy'n berthnasol i liniaru.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Ymestyn y defnydd o fand eang a'r broses o gyflwyno rhwydweithiau cyflym a rhoi cymorth i fabwysiadu technolegau a rhwydweithiau newydd ar gyfer yr economi ddigidol.

AMCAN PENODOL 3: Cyfrannu at dargedau'r Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop yng Nghymru ar gyfer mynediad 100% at fand eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps ac uwch) a mynediad 50% at 100Mbps.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi twf sy'n ysgogi cyflogaeth drwy ddatblygu potensial mewndarddol fel rhan o strategaeth diriogaethol ar gyfer ardaloedd penodol, gan gynnwys addasu rhanbarthau diwydiannol sy'n dirywio a gwella mynediad at adnoddau naturiol a diwylliannol penodol a datblygiad yr adnoddau hynny.

AMCAN PENODOL 4: Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn isadeiledd lleol neu ranbarthol blaenoriaethol sy'n cefnogi strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP3):**<br><br>**Menywod i mewn i TGCh**<br>Mae ymchwil yn dangos bod nifer y menywod sy'n ymgymryd â chymwysterau sy'n gysylltiedig â TG ac yn camu ymlaen i'r gweithlu TG proffesiynol wedi bod yn gostwng ac yn parhau i wneud. Yn 2008 roedd mwy o ddynion na menywod yn y diwydiant TG, a'r gymhareb yn 4:1, gyda menywod yn rhoi cyfrif am 23% yn unig o'r gweithlu TG.[59]<br><br>• Dylai gweithgarwch yma gynyddu i'r eithaf gyfleoedd i:<br>- gefnogi cyfranogiad[60] gan fenywod a lle y bo'n bosibl mynd ati mewn ffordd weithredol i geisio cefnogi'r arfer o gael modelau rôl benywaidd yn gweithio ar brosiectau[61] | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol (AP 1, 2 a 4):**<br><br>• **Hybu ymwybyddiaeth o opsiynau presennol o ran cludiant cyhoeddus:** Lle mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus eisoes yn bodoli ond yn peidio â chael eu defnyddio'n llawn, ceisio cynyddu lefel yr ymwybyddiaeth o opsiynau posibl o ran cludiant cyhoeddus. Er enghraifft, dylai busnesau ddarparu hysbysfwrdd teithio ar gyfer eu staff sy'n manylu ar y gwasanaethau cludiant cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r lleoliad hwnnw. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP2):**<br><br>• Ymgynghori â grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol. Rhaid i'r ymgynghoriad hwn gynnwys unrhyw fentrau lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylid gwerthuso eu heffeithiolrwydd gyda golwg ar weld sut y gall unrhyw welliannau neu ychwanegiadau gael eu hymgorffori'n effeithiol gan osgoi dyblygu gwasanaethau presennol neu barhau â gwasanaethau nad ydynt yn berthnasol mwyach.<br><br>• Dylid cyfeirio at y Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol i ddysgu pa ddadansoddiad strategol sydd wedi cael ei wneud. Byddai'r asesiad lleol hwn yn golygu y byddai anghenion pocedi/ardaloedd o amddifadedd wedi |

[59] Cerdyn Sgorio Menywod mewn TG 2016 https://epws.org/women-in-it-scorecard/
[60] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth, adroddiad 'Menywod dawnus ar gyfer Cymru lwyddiannus' https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.85921625.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[61] Siarter Athena Swan – 'Advancing Women's careers in STEM' http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Dylai cydbwysedd rhwng y rhywiau fod yn ystyriaeth allweddol hefyd wrth sefydlu byrddau, pwyllgorau a thimau ymchwil a dylai gweithrediadau ystyried bod ag isafswm rhaniad o 40% / 60% ar bob un. | • **Datblygu a hyrwyddo cludiant integredig*:** Gall systemau cludiant integredig* gynyddu'n sylweddol y defnydd o fathau o gludiant sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy. Mae arddangos yr holl opsiynau o ran cludiant cyhoeddus mewn un lle, gan o bosibl amlygu'r cysylltiadau rhwng y gwahanol wasanaethau, yn ffordd hawdd ac ymarferol o annog pobl i'w ddefnyddio. Gall gwybodaeth integredig mewn amser real am gludiant mewn gorsafoedd/safleoedd bysiau neu ar y Rhyngrwyd ddarparu gwybodaeth gyfredol a chywir am yr holl opsiynau presennol o ran cludiant cyhoeddus. Gellir datblygu systemau tocynnau a chardiau electronig i alluogi teithwyr i ddefnyddio unrhyw wasanaeth cludiant cyhoeddus yn y rhanbarth heb orfod prynu sawl tocyn. Hefyd, dylid gosod cloeriau beiciau hygyrch, diogel mewn gorsafoedd trenau a bysiau i alluogi teithwyr i newid yn rhwydd rhwng y beic a'r trên/bws. | cael eu hamlygu ynghyd â'r datrysiadau addas.<br><br>• Cynigion syml, fforddiadwy a chyson o ran prisiau tocynnau i bobl ifanc, pobl anabl, ceiswyr gwaith neu unigolion sy'n byw mewn rhannau gwledig o Gymru. Gallai hyn gynyddu eu defnydd o gludiant cyhoeddus, gan eu galluogi i brofi mynediad parhaus at sefydliadau addysg bellach/uwch ac/neu ganolfannau cyflogaeth.<br><br>• Ar gyfer llwybrau sy'n gwasanaethu canolfannau cyflogaeth rhaid rhoi ystyriaeth i amseriad teithiau er mwyn sicrhau y darperir ar gyfer oriau anghymdeithasol, patrymau gwaith sifft (yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos) a phenwythnosau ynghyd â rhoi darpariaeth ddigonol yn ystod oriau brig. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Adeiladu cysylltiadau ffisegol newydd â gwasanaethau/llwybrau cludiant eraill:** Dylai 'gweithrediadau' greu cysylltiadau ffisegol newydd rhwng gwasanaethau cludiant a llwybrau nad ydynt yn bodoli eto, er enghraifft rhodfa ddiogel rhwng gorsaf drenau a gorsaf fysiau. Fel arall, os yw'r pellterau rhwng pwyntiau cysylltu gwasanaethau'n fwy, gellid ystyried darparu gwasanaeth bws gwennol cyflym ac effeithlon. Gellir annog cludiant cynaliadwy hefyd drwy wella cysylltiadau cludiant cyhoeddus â therfynfeydd fferïau'r rhanbarth. Mae cynlluniau parcio a theithio wedi profi'n ffordd lwyddiannus o leihau tagfeydd o fewn dinasoedd drwy ddarparu cyfleusterau parcio diogel y tu allan i drefi a chysylltiadau bws cyflym ac effeithlon â chanol y ddinas. Gellid ymestyn y cysyniad hwn i ddarparu meysydd parcio diogel y tu allan i drefi ar gyfer cynlluniau parcio a theithio, a allai hyd yn oed ddarparu cyswllt â gwasanaethau bysiau rhwng dinasoedd. | • Rhaid rhoi ystyriaeth i'r bobl hynny y mae eu taith gymudo ddyddiol yn cynnwys sawl arhosiad hy y gwarchodwr plant yna'r ysgol ac yn olaf y lle y maent yn gweithio. Caiff gallu unigolyn i wneud y math yma o siwrne ei waethygu pan fo'r siwrne'n cychwyn mewn lleoliad gwledig neu ar gyrion tref. Er mwyn sicrhau cymaint o ddefnydd â phosibl o unrhyw systemau teithio newydd neu well rhaid ystyried cysylltu cludiant cyhoeddus yn well â'r siwrneiau gwirioneddol mewn ardal arbennig.<br><br>• Er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai ar gyrion trefi gellid ffurfio cysylltiadau â chynlluniau cludiant cymunedol a Chludiant sy'n Ymateb i'r Galw i gysylltu â'r rhwydwaith lle mae'r galw'n fwy gwasgaredig. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Adeiladu llwybrau cludiant cynaliadwy newydd:** Ffordd uniongyrchol o hybu cludiant cynaliadwy yn y rhanbarth fyddai datblygu llwybrau cludiant cyhoeddus newydd. Dylid creu llwybrau newydd ar gyfer trenau, bysiau, beiciau neu gerddwyr lle gallent gael yr effaith fwyaf a chael eu hyrwyddo drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. Dylid ymgynghori'n llawn â chymunedau ynghylch llwybrau arfaethedig i sicrhau'r berchnogaeth fwyaf bosibl. Dylai gwasanaethau newydd gael eu dylunio fel eu bod yn rhoi dewis arall go iawn i gymudwyr.<br><br>• **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded. | • Ceisio ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel i gynorthwyo'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwasgaredig lle nad yw gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael bron o gwbl.<br><br>• Gweithio gyda mudiadau lleol er enghraifft grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol i hyrwyddo unrhyw newidiadau neu welliannau a wneir er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r manteision i'r rhai a arferai deimlo bod y gwasanaethau'n methu â diwallu eu hanghenion. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Defnyddio tanwyddau mwy amgylcheddol gynaliadwy:** Er bod system cludiant cyhoeddus yn fwy amgylcheddol gynaliadwy na chludiant mewn car preifat, mae'n dal yn bosibl bod effeithiau negyddol yn cael eu hachosi drwy allyriadau tanwydd. Felly dylid defnyddio tanwyddau 'gwyrdd' megis bio-nwy a biodiesel lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai tanwyddau carbon is megis Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG) yn ddewisach na thanwyddau safonol hefyd.<br><br>• **Lleoliad adeiladau:** Yn ddelfrydol, dylai'r safle fod wedi'i leoli yn agos at ardaloedd preswyl neu fasnachol presennol. Byddai eu lleoli'n agos at yr ardaloedd hyn yn lleihau'r teithio y byddai angen i staff, cwsmeriaid a chyflenwyr ei wneud. Os nad yw'n bosibl lleoli'r safle'n agos at ardaloedd preswyl neu fasnachol, dylai'r safle fod yn hygyrch â chludiant cyhoeddus. Os nad oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus da i'w cael, yna dylid ceisio | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 3) yn unig:**<br><br>• Ymgynghori â grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol i ganfod pwy sydd heb fynediad at y Rhyngrwyd a pham ynghyd â mapio'r cyfleoedd presennol ar gyfer hyfforddiant TG.<br><br>• Ceisio sefydlu cysylltiadau â phrosiectau ESF a sefydliadau eraill sy'n amcanu at ddarparu cyfle i gyfranogwyr gaffael a datblygu sgiliau TG. Yn ystod unrhyw ymgynghoriad â'r gymuned dylid achub ar y cyfle i hyrwyddo argaeledd y cyrsiau hyn hyd y gellir.<br><br>• Hyrwyddo manteision y Rhyngrwyd i'r unigolion hynny sydd naill ai erioed wedi defnyddio cyfrifiadur o'r blaen, yn brin o hyder neu'n nofyddion. Gellir cyflawni hyn ddrwy gyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddi am ddim neu am gost |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | cefnogaeth a chydweithrediad darparwyr cludiant cyhoeddus lleol i sefydlu gwasanaethau ar y safle. | isel sy'n cael eu rhedeg yn lleol mewn lleoliadau allgymorth cymunedol yn eu mudiadau 3ydd Sector, mentrau cymdeithasol perthnasol, Age Concern, llyfrgelloedd cyhoeddus neu Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf.<br><br>• Darparu datrysiadau cost-isel arloesol er mwyn cynyddu nifer y bobl sydd â mynediad at y Rhyngrwyd neu sy'n berchen ar offer TG.<br><br>• Hyrwyddo opsiynau cyllido risg isel er enghraifft Undebau Credyd er mwyn prynu offer TG.<br><br>• Darparu datrysiadau arloesol i ostwng lefelau allgáu digidol ymhlith pobl ag anableddau er mwyn cynyddu mynediad at gyflogaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn ei dro'n cynyddu mynediad at swyddi gwag, cyfleoedd i greu CVs; os dewisir llwybr hunangyflogaeth byddai angen i'r unigolyn fod â mynediad at y Rhyngrwyd. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes dangosyddion ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw dan Flaenoriaeth 4.** | **Nid oes dangosyddion ar gyfer Datblygu Cynaliadwy dan Flaenoriaeth 4, gweler yr adran camau gweithredu generig.** | **Mae'r dangosyddion canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 2) yn unig:**<br><br>Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i bennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella.<br><br>• Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella.<br><br>**Mae'r dangosyddion canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 3) yn unig:**<br><br>• Adeiladau ychwanegol â mynediad at fand eang â chyflymder o 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd. |

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[62]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. | • **Cyflenwi offer TGCh â'r sgôr effeithlonrwydd ynni uchaf:** Os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys caffael offer TGCh, dylid ceisio'r sgôr effeithlonrwydd ynni uchaf posibl, megis yr un a geir dan y system 'Energy Star®'[72].<br><br>• **Prynu offer TGCh o ffynonellau wedi'u hailddefnyddio/eu hailgylchu lle bynnag y bo'n bosibl:** Pan fo offer TGCh o'r safon effeithlonrwydd amgylcheddol uchaf ar gael o ffynhonnell wedi'i hailddefnyddio/ei hailgylchu, dylid defnyddio'r ffynhonnell hon. | • Cyswllt gwell ag asiantaethau a phartneriaethau lleol eraill a allai gydariannu cymorth newydd gyda chludiant mewn ardaloedd amddifadus, megis Canolfan Byd Gwaith (ceisio ehangu'r hyn sydd eisoes yn cael ei gynnig yn lleol), ymddiriedolaethau ysbytai a gofal sylfaenol y GIG, ac awdurdodau addysg lleol. |

[62] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

[72] System Energy Star yr UE https://ec.europa.eu/energy/topics/energy-efficiency/energy-efficient-products/energy-star_en

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd'' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[63]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd** | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol a chyflawni manteision cymunedol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau ac yn cynnwys astudiaethau achos.[73]<br><br>• **Cynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd ynni unrhyw adeiladau cysylltiedig ar y cam dylunio cychwynnol.** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn amcanu at gael sgôr mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE)[74] neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr gael | |

[63] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications
[73] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP http://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2
[74] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu http://www.breeam.org/

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[64] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am<br>Gontractau a Grantiau:<br>Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[65]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich | ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr | |

[64] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[65] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[66], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[67]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) | (llygredd) a materion o ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediad adeiladu.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Dim datblygu amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.** Rhaid i unrhyw 'weithrediad' sydd â'r potensial i niweidio safle o bwysigrwydd rhyngwladol (yn ôl y | |

[66] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[67] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[68]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[69] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da. | diffiniad yn Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994)[75] gynnal 'Asesiad Priodol'. Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur[76] yn enwedig Atodiad 6 sy'n disgrifio'r broses asesu mewn mwy o fanylder. Rhaid i'r asesiad hwn fod ar wahân i unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol* sy'n cael ei gynnal. Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol drwy ddilyn y ddolen isod[77].<br><br>• Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'. Gall isadeiledd gwyrdd neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau | |

[68] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.29811711.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[69] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[75] Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994 http://www.opsi.gov.uk/SI/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm
[76] TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy
[77] Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol https://llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-asesiadau-effaith?_ga=2.157791346.917460492.1583238260-397661037.1549273374

<table>
<tr><th colspan="3">Camau Gweithredu Generig</th></tr>
<tr><th>Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:</th><th>Datblygu Cynaliadwy:</th><th>Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:</th></tr>
<tr><td>Ymgynghori / Ymgysylltu<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod 'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu.<br><br>Cymalau Cymdeithasol / Cynlluniau Budd Cymunedol<br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithio gyda chontractwyr i ymgorffori cymal cymdeithasol / cynllun budd cymunedol, sy'n cynnig rhyw fath o ail-fuddsoddiad yn y gymuned drwy brofiad gwaith / lleoliadau i hyfforddeion a chyfleoedd cyflogaeth, sy'n buddsoddi yn y gymuned leol er enghraifft: noddi timau pêl-droed lleol</td><td>gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun".<br><br>• Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).<br><br><u>Ardal wedi'i neilltuo fel Dôl Blodau Gwyllt ar bwys eiddo preswyl:</u><br><br>©PeterFrost CNC</td><td></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="3">Camau Gweithredu Generig</th></tr>
<tr><th>Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:</th><th>Datblygu Cynaliadwy:</th><th>Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:</th></tr>
<tr><td>neu dalu am ailaddurno canolfan gymunedol a.y.b. [70][71]<br><br>Dileu Rhwystrau Posibl<br>• Ystyried ffyrdd o ddileu rhwystrau i ganolfannau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â mynediad at gludiant<br>• Cefnogi / ymgorffori opsiynau sy'n annog ffyrdd iach o fyw megis cerdded a beicio<br>• Datblygu ffyrdd o ddarparu mynediad gwell at TGCh a mynediad cyflym at y Rhyngrwyd ar gyfer unigolion mewn cymunedau gwledig ac amddifadus, yn enwedig pobl hŷn a phobl ag anableddau, a allai helpu i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer integreiddio a chyflogaeth</td><td><u>Rhandiroedd Cymunedol</u><br><br>©PeterFrost CNC<br><u>To Gwyrdd</u><br><br>©Pixabay</td><td></td></tr>
</table>

[70] Buddion Cymdeithasol a Chymunedol: Y Tu Hwnt i Frics a Morter https://www.abertawe.gov.uk/YTuHwntiFricsaMorter
[71] Canllawiau Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru – Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru - 2014: https://llyw.cymru/caffael-polisi-budd-ir-gymuned?_ga=2.88543067.1100266084.1584372565-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **<u>Gwesty Pryfed</u>**<br><br>*©Pixabay*<br>• **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na | |

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[78].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau'n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i 'weithrediadau' gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, | |

[78] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| Camau Gweithredu Generig | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol. | |

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Dwyrain Cymru

## ERDF

## 2014-2020

# Echel Flaenoriaeth 1- Ymchwil ac arloesi

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Gwella'r isadeiledd ymchwil ac arloesi a galluoedd i ddatblygu rhagoriaeth mewn ymchwil ac arloesi a hybu canolfannau cymhwysedd, yn enwedig y rhai sydd o ddiddordeb Ewropeaidd.

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru o ran denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** hybu buddsoddiadau gan fusnesau mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu ac addysg uwch, yn enwedig datblygu cynnyrch a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesi agored drwy Arbenigo Craff a chefnogi ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithredoedd i ddilysu cynnyrch yn gynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol a lledaenu technolegau diben cyffredinol

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu'r arfer o fynd ati'n llwyddiannus i drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol gwell, yn enwedig drwy drosglwyddo technoleg yn well o Sefydliadau Addysg Uwch.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol 1 a 2 (AP1 ac AP2):**<br><br>Rhoi cymorth a/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn barod.<br><br>Er enghraifft:<br>• Cyflogi staff cymwysedig o fewn eich gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yn eich cynllun busnes. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP2):**<br><br>• Datblygu, hyrwyddo neu wella strategaeth datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn ysgogi arbedion economaidd, rheolaeth well a manteision amgylcheddol.<br><br>• I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r buddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol. | **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol dan Flaenoriaeth 1.** |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ganddynt, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes ac/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel y cytunwyd / yn rheolaidd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) | • Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br>• Darperir templed enghreifftiol yn yr atodiad wrth y canllawiau hyn ac mae'n enghreifftio amrywiaeth o gamau gweithredu y dylai'r Cod Eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad a byddent yn benodol i weithgareddau'r 'gweithrediadau'. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed. | |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Datblygu 'Gwiriadau Iechyd[79]' ac offer Ar-lein[80] megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed.<br><br>- Dylai gweithrediadau fynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio rhannu offer y maent wedi'u datblygu i gael eu defnyddio neu eu haddasu gan Weithrediadau eraill a gyllidir gan raglenni ERDF ac ESF. | • Datblygu 'Gwiriadau Iechyd' ac offer Ar-lein megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth datblygu cynaliadwy sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed (cyfeirier at droednodyn rhif1 i gael rhagor o wybodaeth). | |

[79] Taflenni Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Themâu Trawsbynciol, cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[80] Taflenni Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Themâu Trawsbynciol, cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Menywod i mewn i Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ac Ymchwil ac Arloesi**<br><br>• Roedd y strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru' gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r ymchwil gan y Gymdeithas Frenhinol a oedd yn dangos y gyfran isel o fyfyrwyr yng Nghymru sy'n dewis bioleg, cemeg a mathemateg ar gyfer Safon Uwch. Mae hefyd wedi sefydlu Tasglu 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' i archwilio'r rhwystrau (a'r datrysiadau posibl) sy'n bodoli i fenywod sy'n astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)[81] yng Nghymru.<br><br>• Hefyd mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod cydraddoldeb mewn ymchwil ac arloesi'n elfen allweddol o Horizon 2020 a'i fod yn cael ei brif ffrydio fel mater trawsbynciol drwyddi draw yn y rhaglen. | | |

[81] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth, adroddiad 'Menywod dawnus ar gyfer Cymru lwyddiannus' http://gov.wales/topics/science-and-technology/science/women-in-science/?skip=1&lang=cy

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Dylai gweithgarwch yn y maes hwn gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i gefnogi cyfranogiad gan fenywod a lle y bo'n bosibl mynd ati mewn ffordd weithredol i geisio cefnogi'r arfer o gael modelau rôl benywaidd yn gweithio ar brosiectau.<br>• Dylai gweithrediadau, lle y bo'n bosibl, ymdrechu i gynyddu nifer y menywod sy'n cyfranogi ac sy'n aros mewn gwyddoniaeth, gweithredu polisïau cydbwysedd bywyd a gwaith, lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a dymchwel rhwystrau sy'n atal cynnydd yng ngyrfa menywod.[82]<br>• Dylai cydbwysedd rhwng y rhywiau fod yn ystyriaeth allweddol hefyd wrth sefydlu byrddau, pwyllgorau a thimau ymchwil a dylai gweithrediadau ystyried bod ag isafswm rhaniad o 40% / 60% ar bob un[83]. | | |

[82] Comisiwn yr UE (2019) 'The European Research Area: advancing together the Europe of research and innovation' https://ec.europa.eu/transparency/regdoc/?fuseaction=list&coteId=1&year=2019&number=83&version=ALL&language=en

[83] Comisiwn yr UE (2011) 'Structural Change in Research Institutions Enhancing excellence, gender equality and efficiency in research and innovation http://ec.europa.eu/research/science-society/document_library/pdf_06/structural-changes-final-report_en.pdf

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Dylai integreiddio dadansoddiad rhyw/rhywedd mewn cynnwys ymchwil ac arloesi eistedd ochr yn ochr ag integreiddio dadansoddiad mwy sefydledig. | | |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r dangosydd canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 2:**<br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau neu systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth **(AP2)**<br>**Bydd prosiectau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1 yn atgyfeirio mentrau at brosiect y Porth Arloesi Clyfar i gyflawni'r dangosyddion Themâu Trawsbynciol.** | **Mae'r dangosydd canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 2:**<br>• Fentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy. **(AP2)**<br>**Bydd prosiectau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1 yn atgyfeirio mentrau at brosiect y Porth Arloesi Clyfar i gyflawni'r dangosyddion Themâu Trawsbynciol.** | **Nid oes dangosyddion ar gyfer Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol dan Flaenoriaeth 1** |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[84]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio | • **Datblygu a hyrwyddo technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.** Gallai datrysiadau arloesol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd[93] fod ar ffurf strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol gwell, technolegau newydd a allai gynyddu cadwraeth ynni*, technolegau a allai ostwng allyriadau neu dechnolegau a allai ddarparu ffynonellau newydd neu well ar gyfer ynni adnewyddadwy glân*.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol.** Dylai buddiolwyr gesio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r | |

[84] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf
[93] Llywodraeth Cymru: Newid Hinsawdd http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/?skip=1&lang=cy

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' ' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[85] | amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda<br>• chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer ac adnoddau ac yn cynnwys sawl astudiaeth achos.[94]<br><br>• **Cynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd ynni unrhyw adeiladau cysylltiedig ar y cam dylunio cychwynnol.** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn cael sgôr mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE)[95] neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn. | |

[85] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications
[94] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP https://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2
[95] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu http://www.breeam.org/

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[86] a dwyieithog:<br><br>- Cymraeg/Saesneg neu; - yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br><br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu unrhyw safonau iaith y byddwch yn dod yn ddarostyngedig iddynt[87] | • **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall systemau draenio cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediadau adeiladu.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth | |

[86] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[87] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[88], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[89] | Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Dim datblygu amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.** Rhaid i unrhyw 'weithrediadau' sydd â'r potensial i niweidio safle o bwysigrwydd rhyngwladol (yn ôl y diffiniad yn Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994)[96] gynnal 'Asesiad Priodol'.<br>Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur[97] yn enwedig Atodiad 6 sy'n disgrifio'r broses asesu mewn mwy o fanylder. Rhaid i'r asesiad hwn fod ar | |

[88] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[89] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
[96] Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994 http://www.opsi.gov.uk/SI/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm
[97] TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy’n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi’i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o’r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy’n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[90][91] | wahân i unrhyw Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol* sy’n cael ei gynnal. Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau o’r Effaith Amgylcheddol drwy ddilyn y ddolen isod[98].<br><br>• **Ni fydd ‘gweithrediadau’ y dangoswyd eu bod yn niweidio safle a warchodir yn rhyngwladol neu’n genedlaethol yn cael eu cefnogi.** Bydd ‘gweithrediadau’ sydd â’r potensial i niweidio unrhyw safle dynodedig gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE*)[99], Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA*)[100] safleoedd RAMSAR*[101], safleoedd Natura 2000*, gwarchodfeydd natur cenedlaethol a morol ac ardaloedd gwarchodedig o bwysigrwydd lleol a | |

[90] Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy
[91] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[98] Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am Asesiadau o’r Effaith Amgylcheddol http://wales.gov.uk/topics/planning/developcontrol/environmental-impact-assessment/?skip=1&lang=cy
[99] Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru: http://wales.com/about-wales/landscapes/wales-areas-outstanding-natural-beauty-aonb
[100] Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru https://www.gov.uk/check-your-business-protected-area
[101] Safleoedd RAMSAR yng Nghymru: http://jncc.defra.gov.uk/page-1392

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[92] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori/Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod 'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu | ddynodwyd gan Ymddiriedolaethau Natur[102] lleol yn cael arfarniad trylwyr gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac yn cael eu hatgyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[103] ar gyfer asesiad.<br><br>• **Datblygu safleoedd tir llwyd[104] o werth ecolegol isel lle bynnag y bo'n bosibl:** Os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys creu cyfleusterau neu safle ymchwil newydd, dylai ffocws ar adfer ac adnewyddu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol isel sy'n adfeiliedig ac nas defnyddir ddigon neu ailddefnyddio adeiladau presennol fod yn flaenoriaeth, yn hytrach na datblygu safleoedd maes glas neu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol sylweddol. Mae datblygiad tir llwyd wedi'i ddylunio'n dda yn fwy tebygol o integreiddio a bod yn gydnaws â'r ardal o'i gwmpas. Bydd hefyd yn gallu manteisio ar | |

[92] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol http: https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[102] Ymddiriedolaethau Natur Cymru: http://www.wtwales.org/
[103] Cyfoeth Naturiol Cymru http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/?lang=cy
[104] Tudalen we adran gynllunio Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/?skip=1&lang=cy

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | wasanaethau cymunedol presennol megis cludiant cyhoeddus. Byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw 'weithrediad' sy'n datblygu safle maes glas* (neu safle tir llwyd o werth ecolegol sylweddol) ddarparu tystiolaeth nad oedd safle tir llwyd arall sy'n addas ac sydd o werth ecolegol isel ar gael.<br><br>• **Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'.** Gall isadeiledd gwyrdd neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun". | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).<br><br>**<u>Ardal wedi'i neilltuo fel Dôl Blodau Gwyllt ar bwys eiddo preswyl:</u>**<br><br><br>***©PeterFrost CNC*** | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Rhandiroedd Cymunedol**<br><br>***©PeterFrost CNC*****To Gwyrdd**<br><br>***©Pixabay*** | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Gwesty Pryfed**  *©Pixabay* • **Cadw a hybu bioamrywiaeth ar y safle hyd y gellir:** Rhaid cynnal ymarfer sgrinio bioamrywiaeth gan ddefnyddio Offeryn Meincnod Bioamrywiaeth yr Ymddiriedolaethau Natur[105] os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys codi adeilad newydd neu adnewyddu adeilad. Rhaid cynnal Arolwg Cynefinoedd Cam 1[106] os yw'r safle'n debygol o gefnogi cynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr (ee y | |

[105] Ymddiriedolaethau Natur – Offeryn Meincnod Bioamrywiaeth: http://www.wildlifetrusts.org/biodiversitybenchmark
[106] Cydbwyllgor Cadwraeth Natur – Llawlyfr Arolygon Cynefinoedd Cam 1: http://jncc.defra.gov.uk/page-2468

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | rhai a restrir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU[107], Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad[108] neu Reoliadau Cynefinoedd y DU 1994).<br><br>• **Camau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i hybu bioamrywiaeth ar y safle.** Mae’r rhain yn cynnwys: gwarchod unrhyw nodweddion naturiol a bywyd gwyllt ar y safle, megis coed aeddfed presennol, gwrychoedd neu byllau. Gallai gwaith tirlunio pellach ddefnyddio rhywogaethau planhigion sy’n frodorol i’r ardal ac yn nodweddiadol ohoni. Dylid cynyddu i’r eithaf y cyfleoedd i greu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd ar y safle, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau sensitif sydd o bosibl wedi cael eu dadleoli o ganlyniad i’r datblygiad. | |

[107] Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU : http://jncc.defra.gov.uk/ukbap
[108] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad: http://jncc.defra.gov.uk/page-1377

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Cynllunio ar gyfer integreiddio'r datblygiad gymaint â phosibl o fewn y gymuned gyfagos bresennol:** Dylai dyluniad y safle fod yn seiliedig ar arfarniad cadarn o'r ardal gyfagos, gan ei gwneud yn bosibl integreiddio'r datblygiad yn y gymuned gymaint â phosibl. Dylai'r safle ddarparu cysylltiadau esthetig a ffisegol da ag ardaloedd cyfagos.<br><br>• **Integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.** Gallai fod yn bosibl gosod technoleg i gynhyrchu ynni adnewyddadwy megis gwresogyddion dŵr solar*, paneli solar ffotofoltaidd*, gwresogi biomas* neu dyrbinau gwynt*.<br>• **Datblygu technolegau arloesol i hybu cludiant cynaliadwy.** Byddai ymchwil i dechnolegau newydd i hybu cludiant mwy cynaliadwy (megis celloedd tanwydd hydrogen* neu systemau bio-nwy/biodiesel*) a chymhwyso'r technolegau hynny, yn dwyn manteision amgylcheddol yn ogystal â manteision economaidd sylweddol o bosibl yn y dyfodol. | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded.<br><br>• **Ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio.** Dylai 'gweithrediadau' ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio lle bynnag y bo'n bosibl.<br><br>• **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | cyflawni'r amcan hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[109].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau'n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i 'weithrediadau' gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle. | |

[109] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
| --- |
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Echel Flaenoriaeth 2 – Cystadleurwydd BBaChau

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu entrepreneuriaeth, yn enwedig drwy hwyluso'r arfer o fanteisio'n economaidd ar syniadau newydd a meithrin y broses o greu cwmnïau newydd, gan gynnwys drwy ddeorfeydd busnes.

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu swm y cyllid sydd ar gael i BBaChau ar gyfer cychwyn busnesau ac ar gyfer ehangu busnesau.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi gallu BBaChau i dyfu mewn marchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac ymwneud â phrosesau arloesi

AMCAN PENODOL 3: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn manteisio ar rwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf ac isadeiledd TGCh.

AMCAN PENODOL 4: Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (cartref a rhyngwladol).

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu buddsoddiadau gan fusnesau mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu a'r sector addysg uwch, yn enwedig hybu buddsoddiad mewn datblygu cynnyrch a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesi agored drwy arbenigo craff a chefnogi ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithredoedd i ddilysu cynnyrch yn gynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn enwedig mewn technolegau galluogi allweddol a lledaenu technolegau diben cyffredinol.

AMCAN PENODOL 5: Mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, i BBaChau yng Nghymru arloesi a masnacheiddio ymchwil a datblygu.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu hyn yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1 ac AP2) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â pherchnogion busnesau presennol a BBaChau newydd / entrepreneuriaid a darparu cymorth ar eu cyfer, yn enwedig unigolion o grwpiau a dangynrychiolir megis Menywod[110][111], Pobl Hŷn, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Anabl.<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob un o'r pedwar Amcan Penodol (AP1, AP2, AP4 ac AP5):**<br>• Rhoi cymorth ac/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob Amcan Penodol dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Datblygu, hyrwyddo neu wella strategaeth datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn ysgogi arbedion economaidd, rheolaeth well a manteision amgylcheddol.<br><br>• I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r buddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1 ac AP2) dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Ceisio ymgysylltu ag unigolion na fyddent fel arfer yn ystyried dechrau busnes er mwyn hybu'r cyfle ac annog pobl i wneud hynny; gellid cyflawni hyn drwy gysylltu â mudiadau yn y trydydd sector, Grwpiau Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf, a grwpiau cymunedol/grwpiau gweithredu lleol gan y bydd hyn yn darparu cysylltiadau gweithio uniongyrchol â'r bobl ac arnyn fwyaf angen cymorth.<br><br>• Gweithio gyda sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach lleol i annog entrepreneuriaeth. |

[110] Chwarae Teg – Women into Enterprise https://www.cteg.org.uk/policy/enterprise
[111] Yr UE – Encouraging women entrepreneurs http://ec.europa.eu/growth/smes/promoting-entrepreneurship/we-work-for/women/index_en.htm

| **Camau gweithredu penodol.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| barod.<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>• Cyflogi staff cymwysedig o fewn eich gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yng nghynllun busnes eich gweithrediadau.<br><br>• Cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ganddynt, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes ac/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel a gytunwyd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) | • Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br><br>• Darperir templed enghreifftiol yn yr atodiad wrth y canllawiau hyn ac mae'n enghreifftio amrywiaeth o gamau gweithredu y dylai'r Cod Eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad a byddent yn benodol i weithgareddau'r 'gweithrediadau'. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed.<br><br>• Datblygu 'Gwiriadau Iechyd' ac offer Ar-lein megis 'Aps' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth datblygu cynaliadwy sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa | • Darparu cyfleoedd i unigolion gael profiad o redeg busnes, a gorau oll os yw'r profiad mewn maes busnes perthnasol.<br><br>• Ceisio sefydlu cysylltiadau â gweithrediadau ESF lle mae gan weithrediad nod i uwchsgilio unigolion a'u hannog i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur, er mwyn hybu'r posibiliadau o ran dod yn hunangyflogedig. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Datblygu 'Gwiriadau Iechyd[112]' ac offer Ar-lein[113] megis 'Aps' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed.<br><br>- Dylai gweithrediadau fynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio rhannu offer y maent wedi'u datblygu i gael eu defnyddio neu eu haddasu gan Weithrediadau eraill a gyllidir gan raglenni ERDF ac ESF. | honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed (cyfeirier at droednodyn rhif1 i gael rhagor o wybodaeth). | |

[112] Taflenni Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Themâu Trawsbynciol, cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[113] Taflenni Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Themâu Trawsbynciol, cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r dangosyddion canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol: (AP1, AP2, AP4 ac AP5):**<br><br>• Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau neu systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. | **Mae'r dangosydd canlynol yn cyfeirio at bob Amcan Penodol dan Flaenoriaeth 2:**<br><br>• Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy. | **Mae'r dangosydd canlynol yn cyfeirio at Amcanion Penodol (AP1 ac AP2) dan Flaenoriaeth 2:**<br>Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i bennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Nifer y mentrau newydd sydd wedi cael cymorth. |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[114]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu | • **Datblygu a hyrwyddo technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.** Gallai datrysiadau arloesol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd[123] fod ar ffurf strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol gwell, technolegau newydd a allai gynyddu cadwraeth ynni*, technolegau a allai ostwng allyriadau neu dechnolegau a allai ddarparu ffynonellau newydd neu well ar gyfer ynni adnewyddadwy glân*. | |

[114] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

[123] Llywodraeth Cymru: Newid Hinsawdd: https://llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.124180674.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' ' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[115] | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau ac astudiaethau achos.[124]<br><br>• **Ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio.** Dylai 'gweithrediadau' ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio lle bynnag y bo'n bosibl. | |

[115] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications
[124] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP: https://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[116] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[117] | • **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu, gweithredu neu wella strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[125]. | |

[116] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[117] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf
[125] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[118], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[119] | **Camau Gweithredu o ran Effeithlonrwydd Ynni:**<br><br>• **Codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth am faterion ynni sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd:** Gall 'gweithrediadau' sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu tuag at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae dyluniad carbon isel*, a mesurau o ran effeithlonrwydd/cadwraeth ynni ac ynni adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu unwaith y bydd y cefndir gwyddonol a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol wedi cael eu deall.<br><br>• **Dyluniad sy'n ysgogi galw isel am ynni:** Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn ddi-garbon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Mae Swyddfa | |

[118] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1

[119] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[120][121] | Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn amcanu at gael sgôr 'Rhagorol' mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE)[126] neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr 'Rhagorol' gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni:** Gellir cyflawni hyn drwy gynnal ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; hybu dulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac | |

[120] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.101199297.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[121] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[126] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu http://www.breeam.org/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[122] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod 'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu. | effeithlonrwydd ynni a darparu grantiau ar gyfer BBaChau/sefydliadau i fabwysiadu mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni. Gall mesurau o'r fath gynnwys deunyddiau inswleiddio gwell, technolegau goleuo a gwresogi ynni-effeithlon megis switshis sy'n sensitif i amser ac unedau gwres a phŵer cyfunedig l.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o | |

[122] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediadau adeiladu. | |

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Echel Flaenoriaeth 3 – Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu'r arfer o gynhyrchu a dosbarthu ynni a gafwyd o ffynonellau adnewyddadwy

AMCAN PENODOL 1: Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cefnogi effeithlonrwydd ynni, dulliau clyfar o reoli ynni a'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn isadeileddau cyhoeddus, gan gynnwys mewn adeiladau cyhoeddus ac yn y sector tai.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu effeithlonrwydd ynni'r stoc dai bresennol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw dan Flaenoriaeth 3; cyfeiriwch at yr adran ar y camau gweithredu generig.** | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â gweithgarwch gan 'weithrediadau' dan Amcan Penodol AP1 dan Flaenoriaeth 3:**<br>Dan y flaenoriaeth hon mae'n bwysig ystyried y newid i economi rhad ar garbon. Mae system ynni sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy yn hanfodol i gynaliadwyedd economaidd Cymru yn y dyfodol. Wrth i danwyddau ffosil ddod yn fwy prin ac wrth i effeithiau negyddol eu hylosgi ddod yn fwy amlwg, ni all dibyniaeth barhaus ar danwyddau o'r fath fod yn opsiwn.<br><br>**<u>Camau gweithredu o ran Effeithlonrwydd Ynni:</u>**<br>• **Codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth am faterion ynni sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd:** Gall 'gweithrediadau' sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu tuag at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae dyluniad carbon isel, a mesurau o ran | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol AP1 dan Flaenoriaeth 3:**<br>• Gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu setiau sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu hyder aelodau o'r gymuned i'w galluogi i ystyried cyfranogi mewn cynllun ynni.<br>• Ceisio paru grwpiau cymunedol presennol â grwpiau cymunedol newydd i ddarparu rôl fentora.<br>• Broceru ymgysylltiad rhwng grwpiau cymunedol sydd ar gamau tebyg er mwyn sefydlu / datblygu cysylltiadau gweithio da i rannu arfer gorau ac arbenigedd.<br>• Ymgysylltu â mudiadau yn y 3ydd sector, grwpiau cymunedol a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd eisoes yn bodoli er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Ynni Cymunedol. Gellir gwneud hyn drwy fynychu, er enghraifft, digwyddiadau / Ffeiriau a |

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | effeithlonrwydd/cadwraeth ynni ac ynni adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu unwaith y bydd y cefndir gwyddonol a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol wedi cael eu deall.<br>• **Dyluniad sy'n ysgogi galw isel am ynni:** Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn ddi-garbon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn amcanu at gael sgôr mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE)[127] neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr '' gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen | digwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf a gaiff eu rhedeg yn lleol.<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol AP2 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Ymgysylltu â mudiadau yn y 3ydd sector, grwpiau cymunedol a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd penodol cyn dechrau ar brif ran y broses o ymgysylltu; gellid gwneud hyn drwy fynychu digwyddiadau / Ffeiriau cymunedol, ffeiriau ysgolion neu gyfarfodydd Rhieni a Llywodraethwyr neu ddigwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf a gaiff eu rhedeg yn lleol. |

[127] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu http://www.breeam.org/

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni:** Gellir cyflawni hyn drwy gynnal ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; hybu dulliau neu dechnolegau gwell o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni a darparu grantiau ar gyfer BBaChau/sefydliadau i fabwysiadu mesurau cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni. Gall mesurau o'r fath gynnwys deunyddiau inswleiddio gwell, technolegau goleuo a gwresogi ynni-effeithlon megis switshis sy'n sensitif i amser ac unedau gwres a phŵer cyfunedig.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr | • Cysylltu (lle y bo'n briodol) â'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf lleol gan fod nifer o glystyrau wedi cynhyrchu "Taflen Wybodaeth Cymunedau yn Gyntaf". Y bwriad fyddai bod manylion contractwyr lleol yn cael eu cynnwys yn gyntaf i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith arfaethedig ac yn ail fel ffordd i unigolyn gael rhagor o wybodaeth os bydd ei hangen arno. Mae hefyd yn galluogi contractwyr lleol i hybu mentrau eraill gan y Llywodraeth. Byddai'r daflen ffeithiau hon yn darparu manylion gwasanaethau cynghori ynghylch Dyledion a Budd-daliadau a ddarperir yn lleol, a allai fod o gymorth gydag unrhyw faterion ariannol a all fod yn effeithio ar unigolyn.<br><br>• Rhoi cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen fabwysiadu mesurau arbed ynni yn eu cartrefi gan arwain at ostyngiad mewn lefelau tlodi tanwydd. |

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediadau adeiladu.<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â gweithgarwch gan 'weithrediadau' dan AP2**<br><br>**<u>Cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan / gymunedol.</u>**<br>*Bydd disgwyl i gynlluniau ategu gweithgarwch Rhaglen Ynni Cymru[128].*<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo mentrau carbon isel:** Unwaith y mae'r holl fesurau posibl o ran cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni wedi cael eu hymgorffori; gall mentrau Carbon isel | |

[128] Adran Ynni Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.195467364.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | wneud cyfraniad sylweddol tuag at y galw am ynni. Gall 'gweithrediadau' gynnal ymchwil i fentrau Carbon isel, datblygu neu gymhwyso technolegau, a hybu'r defnydd o ynni glân drwy grantiau i fentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol lle byddai angen cymorth ychwanegol yng nghyfnod cynnar y 'gweithrediad' i gyrraedd cam lle bydd buddsoddwyr eraill yn barod i fuddsoddi. Bydd cynlluniau'n cael eu hannog yn arbennig lle maent yn rhan o strategaethau Carbon-isel ar gyfer ardal benodol.<br><br>Mae'r mentrau Carbon-isel i'w hystyried fel a ganlyn:<br><br>• Gwynt (ar y môr ac ar y tir);<br>• Solar (gan gynnwys solar ffotofoltaidd*);<br>• Ynni'r Tonnau ac Ynni'r Môr.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau ynni adnewyddadwy yn TAN 8[129] ac ar y | |

[129] TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy: http://lle.gov.wales/catalogue/item/TechnicalAdviceNote8PlanningForRenewableEnergyStrategicSearchAreas/?lang=cy

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | dudalen we gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i neilltuo i Ynni[130]<br><br>Mae'n hollbwysig bod gwerthoedd carbon net systemau ynni'n cael eu hystyried. Er enghraifft, nid yw systemau ynni biomas tanwydd pren ond yn effeithiol pan fo ffynhonnell y pren yn cael ei rheoli'n gynaliadwy. Mae coed i bob pwrpas yn garbon niwtral* felly byddai rheoli'r coetir yn gynaliadwy (i bob pwrpas, plannu coed am bob coeden sy'n cael ei chwympo) yn galluogi ffynhonnell y tanwydd i fod â gwerth Gwres a Phŵer Cyfunedig net.<br><br>• **Datblygu system wresogi gymunedol (neu ddosbarth):** Weithiau gall fod yn fwy priodol datblygu system wresogi i gyflenwi cymuned gyfagos benodol yn hytrach nag adeiladau unigol. Er enghraifft, yn aml efallai mai dyma'r ffordd orau o gyflwyno system wresogi tanwydd pren i grŵp o adeiladau. Ar gyfer gosodiadau o'r math yma byddai'n | |

[130] Adran Ynni Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd?_ga=2.187154272.917460492.1583238260-397661037.1549273374

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | rhaid wrth gydweithio rhwng datblygwyr, cwmnïau ynni ac awdurdodau cynllunio er mwyn cyflawni canlyniadau arwyddocaol. Lle mae briffiau dylunio'n cael eu paratoi ar gyfer datblygiadau mwy, dylid ymchwilio'n drylwyr i systemau gwresogi cymunedol sy'n defnyddio Gwres a Phŵer Cyfunedig ac/neu danwyddau carbon isel.<br><br>• **Datblygu a hyrwyddo technolegau microgynhyrchu* effeithiol:** Mae manteision microgynhyrchu'n mynd y tu hwnt i gilowatiau o wres neu drydan a gynhyrchir. Mae datganoli'r broses o gynhyrchu ynni'n cynyddu diogelwch y cyflenwad ac yn gostwng swm y pŵer a gollir wrth drosglwyddo. Gall microgynhyrchu ddarparu arbedion economaidd i berchennog yr adeilad hefyd. Ceir synergedd eglur rhwng microgynhyrchu ac ymwybyddiaeth o ynni sy'n arwain at awydd am fwy o effeithlonrwydd ynni a gostyngiad yn swm yr ynni a ddefnyddir. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod cyngor arbenigol yn cael ei ddarparu cyn bod | |

| Camau gweithredu generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | unrhyw opsiynau o ran ynni adnewyddadwy'n cael eu gosod, gan ei bod yn bosibl na fydd pob system yn addas ar gyfer pob adeilad. Cyn gosod tyrbinau gwynt yn enwedig, rhaid cael asesiad arbenigol bob amser i ganfod a yw'r adeilad yn addas ar gyfer gosodiad o'r fath.<br>• Cyfeiriwch at y wefan Cymru Effeithlon[131] fel adnodd ychwanegol ar gyfer cyngor ynghylch effeithlonrwydd ynni, dŵr a gwastraff.<br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â'r holl 'weithrediadau' dan flaenoriaeth 3.** | |

[131] Cymru Effeithlon - http://resourceefficient.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes unrhyw ddangosyddion ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw dan Flaenoriaeth 3.** | **Nid oes unrhyw ddangosyddion ar gyfer Datblygu Cynaliadwy dan Flaenoriaeth 3.** | **Mae'r dangosydd canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol (AP 1) yn unig:**<br><br>Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i bennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Cynlluniau ynni cymunedol.<br><br>**Mae'r dangosydd canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 2):**<br><br>• Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran defnyddio ynni. |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[132]<br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer, adnoddau ac yn cynnwys astudiaethau achos. [141]<br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau | |

[132] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

[141] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP https://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'System / symbol hyderus o ran anabledd' ' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[133]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn | i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded.<br><br>**Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'.** Gall isadeiledd gwyrdd neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, | |

[133] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| fformatau hygyrch[134] a dwyieithog:<br><br>- Cymraeg/Saesneg neu; - yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br><br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[135]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac | megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun"<br><br>• Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau). | |

[134] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[135] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[136], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[137]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br><br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag | **<u>Ardal wedi'i neilltuo fel Dôl Blodau Gwyllt ar bwys eiddo preswyl:</u>**<br><br>*©**PeterFrost** CNC*<br><br>**<u>Rhandiroedd Cymunedol</u>**<br><br>***©PeterFrost CNC*** | |

[136] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
[137] Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[138][139]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[140] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da. | **To Gwyrdd**<br><br>*©Pixabay*<br><br>**Gwesty pryfed**<br><br>*© Pixabay* | |

[138] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.59231853.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[139] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[140] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod ‘Gweithrediadau’ yn cael eu dylunio gyda’r defnyddiwr terfynol mewn cof, yn helpu i gynyddu’r manteision i’r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o’r gymuned sydd wedi’u hynysu. | • **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i’r eithaf.** Dylai ‘gweithrediadau’ gynyddu i’r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon, a fyddai’n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni’r amcan hwn. Dylai dulliau sy’n lleihau i’r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a’u mabwysiadu. Dylai’r holl ‘weithrediadau’ adeiladu sy’n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[142].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau’n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i ‘weithrediadau’ gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar | |

[142] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle. | |

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| - Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# Echel Flaenoriaeth 4 – Cysylltedd

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Hybu strategaethau carbon isel ar gyfer pob math o diriogaeth, yn enwedig ar gyfer ardaloedd trefol, gan gynnwys hybu symudedd trefol amlfodd a mesurau addasu sy'n berthnasol i liniaru.

<u>AMCAN PENODOL 1:</u> Cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Ymestyn y defnydd o fand eang a'r broses o gyflwyno rhwydweithiau cyflym a rhoi cymorth i fabwysiadu technolegau a rhwydweithiau newydd ar gyfer yr economi ddigidol.

<u>AMCAN PENODOL 2:</u> Cyfrannu at dargedau'r Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop yng Nghymru ar gyfer mynediad 100% at fand eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps ac uwch) a mynediad 50% at 100Mbps.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP2):**<br><br>**Menywod i mewn i TGCh**[143]<br>Mae ymchwil yn dangos bod nifer y menywod sy'n ymgymryd â chymwysterau sy'n gysylltiedig â TG ac yn camu ymlaen i'r gweithlu TG proffesiynol wedi bod yn gostwng ac yn parhau i wneud. Yn 2008 roedd mwy o ddynion na menywod yn y diwydiant TG, a'r gymhareb yn 4:1, gyda menywod yn rhoi cyfrif am 23% yn unig o'r gweithlu TG.[144]<br><br>- Dylai gweithgarwch yma gynyddu i'r eithaf gyfleoedd i:<br><br>- gefnogi cyfranogiad gan fenywod a lle y bo'n bosibl mynd ati mewn ffordd weithredol i geisio cefnogi'r arfer o gael modelau rôl benywaidd yn gweithio ar brosiectau gan gynnwys canolbwyntiau TGCh cymunedol | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP1):**<br><br>• **Hybu ymwybyddiaeth o opsiynau presennol o ran cludiant cyhoeddus:** Lle mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus eisoes yn bodoli ond yn peidio â chael eu defnyddio'n llawn, ceisio cynyddu lefel yr ymwybyddiaeth o opsiynau posibl o ran cludiant cyhoeddus. Er enghraifft, dylai busnesau ddarparu hysbysfwrdd teithio ar gyfer eu staff sy'n manylu ar y gwasanaethau cludiant cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r lleoliad hwnnw. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP1):**<br><br>• Ymgynghori â grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol. Rhaid i'r ymgynghoriad hwn gynnwys unrhyw fentrau lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylid gwerthuso eu heffeithiolrwydd gyda golwg ar weld sut y gall unrhyw welliannau neu ychwanegiadau gael eu hymgorffori'n effeithiol gan osgoi dyblygu gwasanaethau presennol neu barhau â gwasanaethau nad ydynt yn berthnasol mwyach.<br><br>• Dylid cyfeirio at y Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol i ddysgu pa ddadansoddiad strategol sydd wedi cael ei wneud. Byddai'r asesiad lleol hwn yn golygu y byddai anghenion pocedi/ardaloedd o amddifadedd wedi cael eu hamlygu ynghyd â'r datrysiadau addas. |

143 Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth, adroddiad 'Menywod dawnus ar gyfer Cymru lwyddiannus' https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.96977503.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
144 Cerdyn Sgorio Menywod mewn TG2016 https://epws.org/women-in-it-scorecard/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Dylai cydbwysedd rhwng y rhywiau fod yn ystyriaeth hefyd wrth sefydlu byrddau a  phwyllgorau a dylai gweithrediadau ystyried bod ag isafswm rhaniad o 40% / 60% ar bob un. | • **Datblygu a hyrwyddo cludiant integredig*:** Gall systemau cludiant integredig* gynyddu'n sylweddol y defnydd o fathau o gludiant sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy. Mae arddangos yr holl opsiynau o ran cludiant cyhoeddus mewn un lle, gan o bosibl amlygu'r cysylltiadau rhwng y gwahanol wasanaethau, yn ffordd hawdd ac ymarferol o annog pobl i'w ddefnyddio. Gall gwybodaeth integredig mewn amser real am gludiant mewn gorsafoedd/safleoedd bysiau neu ar y Rhyngrwyd ddarparu gwybodaeth gyfredol a chywir am yr holl opsiynau presennol o ran cludiant cyhoeddus. Gellir datblygu systemau tocynnau a chardiau electronig i alluogi teithwyr i ddefnyddio unrhyw wasanaeth cludiant cyhoeddus yn y rhanbarth heb orfod prynu sawl tocyn. Hefyd, dylid gosod cloeriau beiciau hygyrch, diogel mewn gorsafoedd trenau a bysiau i alluogi teithwyr i newid yn rhwydd rhwng y beic a'r trên/bws. | • Cynigion syml, fforddiadwy a chyson o ran prisiau tocynnau i bobl ifanc, pobl anabl, ceiswyr gwaith neu unigolion sy'n byw mewn rhannau gwledig o Gymru. Gallai hyn gynyddu eu defnydd o gludiant cyhoeddus, gan eu galluogi i brofi mynediad parhaus at sefydliadau addysg bellach/uwch ac/neu ganolfannau cyflogaeth.<br><br>• Ar gyfer llwybrau sy'n gwasanaethu canolfannau cyflogaeth rhaid rhoi ystyriaeth i amseriad teithiau er mwyn sicrhau y darperir ar gyfer oriau anghymdeithasol, patrymau gwaith sifft (yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos) a phenwythnosau ynghyd â rhoi darpariaeth ddigonol yn ystod oriau brig.<br><br>• Rhaid rhoi ystyriaeth i'r bobl hynny y mae eu taith gymudo ddyddiol yn cynnwys sawl arhosiad hy y gwarchodwr plant yna'r ysgol ac yn olaf y lle y maent yn gweithio. Caiff gallu unigolyn i wneud y math yma o siwrnai ei waethygu pan fo'r siwrnai'n cychwyn mewn lleoliad gwledig neu ar gyrion tref. Er mwyn sicrhau cymaint o ddefnydd â phosibl o |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Adeiladu cysylltiadau ffisegol newydd â gwasanaethau/llwybrau cludiant eraill:** Dylai 'gweithrediadau' greu cysylltiadau ffisegol newydd rhwng gwasanaethau cludiant a llwybrau nad ydynt yn bodoli eto, er enghraifft rhodfa ddiogel rhwng gorsaf drenau a gorsaf fysiau. Fel arall, os yw'r pellterau rhwng pwyntiau cysylltu gwasanaethau'n fwy, gellid ystyried darparu gwasanaeth bws gwennol cyflym ac effeithlon. Gellir annog cludiant cynaliadwy hefyd drwy wella cysylltiadau cludiant cyhoeddus â therfynfeydd fferïau'r rhanbarth. Mae cynlluniau parcio a theithio wedi profi'n ffordd lwyddiannus o leihau tagfeydd o fewn dinasoedd drwy ddarparu cyfleusterau parcio diogel y tu allan i drefi a chysylltiadau bws cyflym ac effeithlon â chanol y ddinas. Gellid ymestyn y cysyniad hwn i ddarparu meysydd parcio diogel y tu allan i drefi ar gyfer cynlluniau parcio a theithio, a allai hyd yn oed ddarparu cyswllt â gwasanaethau bysiau rhwng dinasoedd. | unrhyw systemau teithio newydd neu well rhaid ystyried cysylltu cludiant cyhoeddus yn well â'r siwrneiau gwirioneddol mewn ardal arbennig.<br><br>• Er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai ar gyrion trefi gellid ffurfio cysylltiadau â chynlluniau cludiant cymunedol a Chludiant sy'n Ymateb i'r Galw i gysylltu â'r rhwydwaith lle mae'r galw'n fwy gwasgaredig.<br><br>• Ceisio ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel i gynorthwyo'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwasgaredig lle nad yw gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael bron o gwbl.<br><br>• Gweithio gyda mudiadau lleol er enghraifft grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol i hyrwyddo unrhyw newidiadau neu welliannau a wneir er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r manteision i'r rhai a arferai deimlo bod y gwasanaethau'n methu â diwallu eu hanghenion. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Adeiladu llwybrau cludiant cynaliadwy newydd:** Ffordd uniongyrchol o hybu cludiant cynaliadwy yn y rhanbarth fyddai datblygu llwybrau newydd. Dylid creu llwybrau newydd ar gyfer trenau, bysiau, beiciau neu gerddwyr lle gallent gael yr effaith fwyaf a chael eu hyrwyddo drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. Dylid ymgynghori'n llawn â chymunedau ynghylch llwybrau arfaethedig i sicrhau'r berchnogaeth fwyaf bosibl. Dylai gwasanaethau newydd gael eu dylunio fel eu bod yn rhoi dewis arall go iawn i gymudwyr. Byddai hyn yn cynnwys rhedeg gwasanaethau rheolaidd sydd mor gyfleus a hawdd i'w cofio â phosibl i gymudwyr.<br><br>• **Mabwysiadu Cynllun Teithio*.** Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau megis cynlluniau rhannu ceir, byddai'n darparu gwybodaeth am opsiynau o ran cludiant cyhoeddus, byddai'n darparu cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau newid/cawodydd i annog pobl i feicio a cherdded. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 2) yn unig:**<br><br>• Ymgynghori â grwpiau mynediad lleol, mudiadau yn y 3ydd sector a grwpiau cymunedol lleol i ganfod pwy sydd heb fynediad at y Rhyngrwyd a pham ynghyd â mapio'r cyfleoedd presennol ar gyfer hyfforddiant TG. Canfod pa welliannau y gellir eu hymgorffori'n effeithiol a sicrhau bod hyfforddiant ar gael i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.<br><br>• Ceisio sefydlu cysylltiadau â phrosiectau ESF a sefydliadau eraill sy'n amcanu at ddarparu cyfle i gyfranogwyr gaffael a datblygu sgiliau TG. Yn ystod unrhyw ymgynghoriad â'r gymuned dylid achub ar y cyfle i hyrwyddo argaeledd y cyrsiau hyn hyd y gellir.<br><br>• Hyrwyddo manteision y Rhyngrwyd i'r unigolion hynny sydd naill ai erioed wedi defnyddio cyfrifiadur o'r blaen, yn brin o hyder neu'n nofyddion. Gellir cyflawni hyn drwy gyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddi am ddim neu am gost isel sy'n cael eu rhedeg yn lleol |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • **Defnyddio tanwyddau mwy amgylcheddol gynaliadwy:** Er bod system cludiant cyhoeddus yn fwy amgylcheddol gynaliadwy na chludiant mewn car preifat, mae'n dal yn bosibl bod effeithiau negyddol yn cael eu hachosi drwy allyriadau tanwydd. Felly dylid defnyddio tanwyddau 'gwyrdd' megis bio-nwy a biodiesel lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai tanwyddau carbon is megis Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG) yn ddewisach na thanwyddau safonol hefyd.<br><br>• **Lleoliad adeiladau:** Yn ddelfrydol, dylai'r safle fod wedi'i leoli yn agos at ardaloedd preswyl neu fasnachol presennol. Byddai eu lleoli'n agos at yr ardaloedd hyn yn lleihau'r teithio y byddai angen i staff, cwsmeriaid a chyflenwyr ei wneud. Os nad yw'n bosibl lleoli'r safle'n agos at ardaloedd preswyl neu fasnachol, dylai'r safle fod yn hygyrch â chludiant cyhoeddus. Os nad oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus da i'w cael, yna dylid ceisio cefnogaeth a chydweithrediad darparwyr cludiant cyhoeddus lleol i sefydlu gwasanaethau ar y safle. | mewn lleoliadau allgymorth cymunedol yn eu mudiadau 3ydd Sector, mentrau cymdeithasol perthnasol, Age Concern, llyfrgelloedd cyhoeddus neu Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf.<br><br>• Darparu datrysiadau cost-isel arloesol er mwyn cynyddu nifer y bobl sydd â mynediad at y Rhyngrwyd neu sy'n berchen ar offer TG.<br>• Hyrwyddo opsiynau cyllido risg isel er enghraifft Undebau Credyd er mwyn prynu offer TG.<br>Darparu datrysiadau arloesol i ostwng lefelau allgáu digidol ymhlith pobl ag anableddau er mwyn cynyddu mynediad at gyflogaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn ei dro'n cynyddu mynediad at swyddi gwag, cyfleoedd i greu CVs; os dewisir llwybr hunangyflogaeth byddai angen i'r unigolyn fod â mynediad at y Rhyngrwyd. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol (AP 2):**<br><br>• **Cyflenwi offer TGCh â'r sgôr effeithlonrwydd ynni uchaf:** Os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys caffael offer TGCh, dylid ceisio'r sgôr effeithlonrwydd ynni uchaf posibl, megis yr un a geir dan y system 'Energy Star®'[145].<br><br>• **Prynu offer TGCh o ffynonellau wedi'u hailddefnyddio/eu hailgylchu lle bynnag y bo'n bosibl:** Pan fo offer TGCh o'r safon effeithlonrwydd amgylcheddol uchaf ar gael o ffynhonnell wedi'i hailddefnyddio/ei hailgylchu, dylid defnyddio'r ffynhonnell hon. | |

[145] System Energy Star yr UE http://www.eu-energystar.org/index.html

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes dangosyddion ar gyfer thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw dan Flaenoriaeth 4.** | **Nid oes dangosyddion ar gyfer thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy dan Flaenoriaeth 4.** | **Mae'r dangosyddion canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol (AP 1) dan Flaenoriaeth 4:**<br>• Gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella.<br>• Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella.<br>• Cyfanswm hyd y llinellau tram a metro sy'n newydd neu wedi'u gwella.<br>**Mae'r dangosydd canlynol yn cyfeirio at Amcan Penodol (AP 2) dan Flaenoriaeth 4:**<br>• Adeiladau ychwanegol â mynediad at fand eang â chyflymder o 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd. |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod yr holl gyfleoedd o ran recriwtio a swyddi ar gael i'r holl unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae angen i'r Gweithrediad hefyd ystyried y Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad i ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg'[146]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau bod recriwtio | • **Datblygu a hyrwyddo cadwynau cyflenwi cynaliadwy lleol effeithiol.** Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwynau cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd hefyd. Bydd y ddolen isod yn rhoi mwy o gymorth i chi gyda chaffael cynaliadwy, ac mae'n darparu offer ac adnoddau ac yn cynnwys astudiaethau achos.[158]<br><br>• **Cynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd ynni unrhyw adeiladau cysylltiedig ar y cam dylunio cychwynnol.** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn amcanu at gael sgôr mewn perthynas â safonau adeiladu amgylcheddol dan gynllun BREEAM (a weithredir gan BRE)[159] | |

[146] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf
[158] Gwybodaeth ac astudiaethau achos Caffael Cynaliadwy WRAP https://www.wrap.org.uk/category/subject/procurement?page=2
[159] Building Research Establishment Environmental Assessment Method http://www.breeam.org/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| allanol yn cael ei gefnogi os yn bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur, dylai'r polisïau hyn fod yn gymwys. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol dan y telerau a nodir yn y polisi cytunedig. Lle tybir ei bod yn annhebygol y gellir llenwi'r swydd yn fewnol, dylent gael eu hysbysebu hefyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, mudiadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' ' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[147]<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn | neu ardystiad cyfatebol. Rhaid i'r sgôr gael ei ddilysu yn y cam Adolygu Ar Ôl Adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i'r ymgynghorydd datblygu cynaliadwy yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel cadarnhad. Ceir rhagor o wybodaeth am BREEAM yn y ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â'r matrics hwn.<br><br>• **Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd.** Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod lle y bo'n briodol. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran | |

[147] DWP Two Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ffformatau hygyrch[148] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun ac/neu safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[149]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny | amwynderau yn ystyriaeth bwysig mewn gweithrediadau adeiladu.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Dim datblygu amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.** Rhaid i unrhyw 'weithrediad' sydd â'r potensial i niweidio safle o bwysigrwydd rhyngwladol (yn ôl y diffiniad yn Rheoliadau Cynefinoedd | |

[148] Y Swyddfa Materion Anabledd 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[149] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[150], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[151]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â | y DU 1994)[160] gynnal 'Asesiad Priodol'.<br>Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur[161] yn enwedig Atodiad 6 sy'n disgrifio'r broses asesu mewn mwy o fanylder.<br><br>Rhaid i'r asesiad hwn fod ar wahân i unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol* sy'n cael ei gynnal. Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol drwy ddilyn y ddolen isod[162].<br><br>• **Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf.** Dylai 'gweithrediadau' gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n dwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn | |

150 RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
151 Cod ymarfer hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
160 Rheoliadau Cynefinoedd y DU 1994 http://www.opsi.gov.uk/SI/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm
161 TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur?_ga=2.131668935.917460492.1583238260-397661037.1549273374
162 Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol http://wales.gov.uk/topics/planning/developcontrol/environmental-impact-assessment/?skip=1&lang=cy

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[152][153]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[154] yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd, o'u gwirfodd, a fyddai'n arddangos arfer da.<br><br>**Ymgynghori / Ymgysylltu**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol o weithio gyda chymunedau lleol, perchnogion busnesau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod 'Gweithrediadau' yn cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr terfynol mewn cof, | chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Dylai dulliau sy'n lleihau i'r eithaf ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai gael eu datblygu a'u mabwysiadu. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sy'n fwy na £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff safle[163].<br><br>• **Datblygu technolegau a phrosesau arloesol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau.** Mae ymchwil i dechnolegau a phrosesau rheoli gwell i alluogi gwell effeithlonrwydd adnoddau'n hollbwysig i ddyfodol economaidd Cymru. Rhaid i 'weithrediadau' gynllunio ar gyfer gwahanu a storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu o fewn y safle a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle.<br><br>• **Paratoi a gweithredu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle.** Ar gyfer y 'gweithrediadau' | |

[152] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.22489979.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[153] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan
[154] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[163] Gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle gan WRAP: http://www.wrap.org.uk/category/sector/waste-management

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| yn helpu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ac yn helpu i sicrhau derbyniad a chefnogaeth ee grwpiau mynediad ac anabledd lleol neu aelodau eraill o'r gymuned sydd wedi'u hynysu<br><br>**Cymalau Cymdeithasol / Cynlluniau Budd Cymunedol**<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithio gyda chontractwyr i ymgorffori cymal cymdeithasol / cynllun budd cymunedol, sy'n cynnig rhyw fath o ail-fuddsoddiad yn y gymuned drwy brofiad gwaith / lleoliadau i hyfforddeion a chyfleoedd cyflogaeth, sy'n buddsoddi yn y gymuned leol er enghraifft: noddi timau pêl-droed lleol neu dalu am ailaddurno canolfan gymunedol a.y.b. [155][156][157]<br><br>**Dileu Rhwystrau Posibl**<br>• Ystyried ffyrdd o ddileu rhwystrau i ganolfannau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â mynediad at gludiant | hynny sy'n golygu codi adeiladau, dylai Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Safle gael ei baratoi a'i weithredu. Dylai'r Cynllun gynnwys canllawiau rheolaeth amgylcheddol ar yr holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod y broses o baratoi, adeiladu a gweithredu'r safle. Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau a wneir gan y datblygwr yn ystod y broses gynllunio a chynnwys ymgynghori'n llawn â'r gymuned leol.<br><br>• **Y potensial i weithredu isadeiledd gwyrdd neu las ar raddfa fechan yn nyluniad 'gweithrediad'.** Gall isadeiledd gwyrdd neu isadeiledd glas fod ar sawl ffurf, er enghraifft: gall isadeiledd gwyrdd gynnwys toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd blodau gwyllt trefol, toeau a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed, ac isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i | |

[155] Buddion Cymdeithasol a Chymunedol: Y Tu Hwnt i Frics a Morter https://www.abertawe.gov.uk/YTuHwntiFricsaMorter
[156] Canllawiau Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru – Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru - 2014: https://llyw.cymru/caffael-canllawiau-budd-ir-gymuned?_ga=2.26677245.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
[157] Welsh Government Community Benefits Measurement Toolkit: http:/prp.gov.wales/toolkit

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Cefnogi / ymgorffori opsiynau sy'n annog ffyrdd iach o fyw megis cerdded a beicio<br><br>• Datblygu ffyrdd o ddarparu mynediad gwell at TGCh a mynediad cyflym at y Rhyngrwyd ar gyfer unigolion mewn cymunedau gwledig ac amddifadus, yn enwedig pobl hŷn a phobl ag anableddau, a allai helpu i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer integreiddio a chyflogaeth | gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau cymunedol i "dyfu'ch bwyd eich hun".<br><br>• Gallai isadeiledd glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).<br><br>***<u>Ardal wedi'i neilltuo ar gyfer Dôl Blodau Gwyllt ar bwys eiddo preswyl</u>:***<br><br>***©PeterFrost CNC*** | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Rhandiroedd Cymunedol**<br><br>***©PeterFrost CNC***<br>**To Gwyrdd**<br><br>© ***Pixabay*** | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Gwesty pryfed**  ***©Pixabay*** | |

| Integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn modd generig. |
|---|
| • Dylai'r holl fuddiolwyr arweiniol ystyried ffyrdd o integreiddio'r tair thema drawsbynciol hy cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i ddadlau dros integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn o fewn 'gweithrediad'. |

# ATODIAD

## Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw – Cysylltiadau a Chyfeiriadau Gwybodaeth Defnyddiol

**Pobl Hŷn:**
Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023[164], Yr Adran Gwaith a Phensiynau – Helping people to find and stay in work[165], Taflenni Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Themâu Trawsbynciol, cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru[166]

**Menywod:**
Prosiect W.A.V.E.[167], Cenedl Hyblyg[168], STEM Cymru[169], Chwarae Teg[170], Women Like Us[171], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF[172]

**Pobl Anabl / Cyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu Pobl i Weithio:** nabledd Cymru[173], Mynediad i Waith[174], Rhaglen Dewis Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau[175], Rhwydwaith Ewropeaidd Hybu Iechyd yn y Gweithle[176], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF[177], Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol[178]

---

[164] Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023 https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-pobl-hyn-2013-i-2023
[165] Yr Adran gwaith a Phensiynau 'Helping older people who want to find or stay in work' https://www.gov.uk/government/policies/helping-people-to-find-and-stay-in-work/supporting-pages/helping-older-people-who-want-to-find-or-stay-in-work
[166] Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[167] Prosiect W.A.V.E (Menywod yn Ychwanegu Gwerth ar yr Economi) http://enterprise.research.southwales.ac.uk/women/projects/wave/
[168] Cenedl Hyblyg 2 http://www.agilenation2.org.uk/for-women/
[169] STEM Cymru 2 http://www.stemcymru.org.uk/
[170] Chwarae Teg http://chwaraeteg.com/
[171] Women Like Us (Llundain) http://www.womenlikeus.org.uk/
[172] Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[173] Anabledd Cymru http http://www.disabilitywales.org/?lang=cy
[174] Mynediad i Waith https://www.gov.uk/access-to-work/overview
[175] Rhaglen 'Dewis Gwaith' yr Adran Gwaith a Phensiynau https://www.gov.uk/work-choice/overview
[176] Rhwydwaith Ewropeaidd Hybu Iechyd yn y Gweithle http://www.enwhp.org/
[177] 'Taflenni Ffeithiau' Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y themâu trawsbynciol http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/cross-cutting-guidance/factsheets/?lang=cy
[178] Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy

**Cyfrifoldebau Gofalu:**
Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF[179]

**Iaith a Hygyrchedd:**
Strategaeth y Gymraeg 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru[180], cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru[181]

**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig:**
Mae'r sefydliadau'n cynnwys: Cyngor Ffoaduriaid Cymru[182], Chwarae Teg[183], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF [184]

**Pobl Ifanc:**
Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF

**Mabwysiadu neu Wella Strategaethau a Systemau Monitro Cydraddoldeb:** SEREN[185]

---

[179] Mae 'Taflenni Ffeithiau' Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y themâu trawsbynciol yn amlygu sut y mae gweithrediadau wedi cyflawni mewn perthynas ag ystod o ddangosyddion ac ymrwymiadau eraill o ran cyfle cyfartal megis: darparu ar gyfer unigolion â Nodweddion Gwarchodedig, Cymalau Cymdeithasol/Cymunedol, Rhai Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant, Grwpiau Agored i Niwed, meysydd gweithio/astudio annhraddodiadol, Hygyrchedd, Y Gymraeg Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[180] Strategaeth y Gymraeg 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy

[181] Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[182] Cyngor Ffoaduriaid Cymru http://welshrefugeecouncil.org.uk

[183] Chwarae Teg http://cymraeg.chwaraeteg.com/

[184] Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[185] Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth SEREN http://grc.engineering.cf.ac.uk/research/seren/resources/products/2/

## Ffeithluniau Themâu Trawsbynciol:

Mae'r Tîm Themâu Trawsbynciol wedi datblygu a pharhau i ddatblygu ffeithluniau astudiaethau achos sy'n dangos yr arferion da sydd ar waith mewn perthynas â Themâu Trawsbynciol yn rhaglenni 2014-2020. Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

Mae cyfres o daflenni ffeithiau hefyd ar gael sy'n dangos sut y caiff gweithrediadau eu cyflawni yn erbyn ystod o ddangosyddion datblygu cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal yn rhaglenni 2007-2013.

**Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru i gael y taflenni ffeithiau.**

## Cod Eco

Set o ymddygiadau yw Cod Eco sydd wedi'u bwriadu i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol a rhannu gwybodaeth amgylcheddol ymhlith staff a defnyddwyr adeilad ac/neu sefydliad. Mae'r Cod Eco (a arddangosir fel arfer gan ddefnyddio posteri) yn rhoi cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, dŵr ac adnoddau.

Mae'r templed enghreifftiol canlynol yn dangos y math o gamau gweithredu y dylai'r Cod Eco eu hybu. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad sy'n noddi a byddent yn benodol i weithgareddau'r noddwr. Fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu awgrymedig wedi'u cynnwys yn y templed.

| | **Atal Gwastraff, Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu** |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn atal, arbed, atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu i leihau gwastraff i'r eithaf lle bynnag y bo'n bosibl. |
| Camau Gweithredu | • Prynu eitemau â lefelau isel / sero o ddeunydd pacio;<br>• Ailgylchu'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys papur, metelau, gwydr, plastig a bwyd;<br>• Compostio eitemau darfodus priodol. |
| | **Cludiant** |
| Cod Eco | Byddwn yn eich annog i deithio mewn ffyrdd mwy eco-gyfeillgar pan fyddwch yn dod i'n gweld! Yn yr un modd, bydd busnes y sefydliad yn cael ei gynnal drwy'r dull cludiant mwyaf amgylcheddol gynaliadwy sydd ar gael. |
| Camau Gweithredu | • Lleihau'r angen i deithio lle y bo'n bosibl drwy ddefnyddio TGCh;<br>• Defnyddio, hyrwyddo a gwella cludiant cyhoeddus lle bynnag y bo'n bosibl;<br>• Defnyddio Fideogynadledda a Thelegynadledda;<br>• Rhannu cerbydau lle bynnag y bo'n bosibl http://carshare.liftshare.com/ |

| | Prynu |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn prynu cynhyrchion a deunyddiau nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd wrth gael eu gwneud neu eu defnyddio. |
| Camau Gweithredu | • Prynu cynhyrchion a ailddefnyddir/a ailgylchwyd lle bynnag y bo'n bosibl;<br>• Amcanu at gyflawni Lefel 3 yn y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy ar y cyfan a Lefel 5 mewn o leiaf un maes. |

| | Dŵr |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn arbed dŵr lle bynnag y bo'n bosibl. |
| Camau Gweithredu | • Diffodd tapiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio;<br>• Gosod mesurau arbed dŵr megis tapiau â chyfyngiad amser, systemau ailgylchu 'dŵr llwyd'*, toiledau dwrlif deuol, awyryddion dŵr ar bob tap sinc a dyfeisiau arbed dŵr mewn sestonau toiledau. |

| | Ynni |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn defnyddio llai o ynni ac yn eich dysgu chi sut i arbed ynni! |
| Camau Gweithredu | • Diffodd yr holl wresogyddion/goleuadau pan nad oes mo'u hangen;<br>• Defnyddio rheolyddion gwresogi i adweithio'n gyflym i wahanol anghenion gwresogi dyddiol;<br>• Gosod mesurau inswleiddio effeithiol, cau pob drws/ffenestr yn y gaeaf;<br>• Tanysgrifio i gwmni ynni gwyrdd megis Good Energy sy'n gallu cael trydan gwyrdd 100%;<br>• Gosod cyfleusterau ynni adnewyddadwy lle y bo'n bosibl, megis gwresogyddion dŵr solar.* |

| | Bioamrywiaeth |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn cynyddu bioamrywiaeth y safle a'i amgylchoedd. |
| Camau Gweithredu | • Ymgynghori â grwpiau bywyd gwyllt lleol ynghylch mynd ati'n effeithiol i annog bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn eich ardal. |

| | Codi Ymwybyddiaeth |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn hysbysu ein holl ymwelwyr a'r cyhoedd sut yr ydym yn gofalu am ein hamgylchedd a gobeithio y byddant hwythau'n gwneud yr un modd gartref! Er enghraifft: Hysbysiadau a gwybodaeth i'w hatgoffa o amgylch y ganolfan, hyrwyddo ein hunain i'r cyfryngau lleol a darparu gwybodaeth ar ein gwefan |
| Camau Gweithredu | • Gosod hysbysiadau a phosteri amlwg o amgylch adeilad y sefydliad;<br>• Darparu gwybodaeth ar y wefan ac mewn llenyddiaeth. |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Log diweddaru dogfen matrics ERDF

Fersiwn 6 Mawrth 2020

| Rhif Tudalen | Newid a wnaed | Rheswm |
|---|---|---|
| **Generig** | | **Mae'r newidiadau Cyfle Cyfartal isod i gyd wedi'u gwneud yn y fersiwn Gymraeg** |
| Clawr blaen | Diweddaru rhif y fersiwn a'r dyddiad | Diweddaru canllawiau a dolenni gwe |
| Pob tudalen | Newid 'fersiwn 3 Ionawr 2017' i ' fersiwn 4: Ionawr 2018' | Troedyn tudalen – fersiwn newydd o'r ddogfen |
| 153 | Ffeithlun | Ychwanegu testun a dolen URL |
| **EO a GM** | | |
| 7, 8, 9, 80, 81, 82 (Cymraeg: 6, 7, 8, 77, 78, 79) | Dileu'r testun Dangosyddion Trawsbynciol | Cyfeirio at y Porth Arloesi Clyfar |
| 12, 85 (Cymraeg: 11, 82) | Ychwanegu testun | Proses atgyfeirio Arloesi Clyfar a Dangosyddion Trawsbynciol |
| 10, 59, 83, 133 | | |
| 15, 36, 52, 67, 88, 107, 125, 141 | Diweddaru'r derminoleg o 'O blaid pobl anabl' i'r symbol ar gyfer hyder o ran anableddau | |
| 15, 37, 53, 68, 88, 108, 126, 141 | Dileu'r cyfeiriad at ddogfen 'Grantiau, benthyciadau a nawdd' Comisiynydd y Gymraeg | Wedi dyddio. Bellach wedi cynnwys y canllawiau newydd 'Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. |
| 58, 133 | Dolen at y cerdyn sgorio Menywod mewn TG | Ddiweddaru i ddangos dogfen 2016 |
| Drwyddi draw | EQUIA yn lle EIA (yn y fersiwn Saesneg) | Adlewyrchu newidiadau o ran yr Amgylchedd a Chydraddoldeb |
| Atodiad | Diweddaru'r cyfeiriad at gysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol, a'r dolenni gwe | |
| 153 | Ffeithlun a thaflen ffeithiau | Golygu testun |

| DATBLYGU CYNALIADWY | | |
|---|---|---|
| 7, 8, 9, 80,81,82 | Dileu'r testun am Ddangosyddion Trawsbynciol | Cyfeirio at y Porth Arloesi Clyfar |
| 12, 85 | Ychwanegu testun | Cyfeirio at broses gyfeirio Arloesi Clyfar a Dangosyddion Trawsbynciol |
| 13,34,35,47,48,67,106, 121,122,124,140 | Dileu'r cyfeiriad at Hyrwyddwr Datblygu Cynaliadwy | Dileu er mwyn adlewyrchu'r newid i ddefnyddio Hyrwyddwr Trawsbynciol generig yn lle themâu unigol. Pob cyfeiriad wedi'i ddileu o'r fersiwn Gymraeg) |
| 46 | Gwefan Trwyddedu Morol wedi'i newid | Diweddaru'r ddolen URL (y fersiwn Gymraeg wedi'i newid i adlewyrchu'r Saesneg) |
| 69,88,115,142 | Newidiadau BREEAM | Dileu testun i adlewyrchu newidiadau yng nghanllawiau BREEAM newydd Llywodraeth Cymru. (Y fersiwn Gymraeg wedi'i newid i adlewyrchu'r Saesneg) |

## Newidiadau a wnaed Fersiwn 6 – Mawrth 2020

| Rhif y Dudalen | Y Newid a Wnaed | Y Rheswm |
|---|---|---|
| **Generig** | | |
| Y clawr | Diweddaru rhif y fersiwn a'r dyddiad | Canllawiau a dolennu gwe wedi'u diweddaru |
| Pob tudalen | Newid 'fersiwn 5: Hydref 2018' i 'fersiwn 6: Mawrth 2020 | Troedyn y tudalennau – fersiwn newydd o'r ddogfen |
| | | |
| **Cyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw** | | |
| Trwy'r ddogfen gyfan | Diweddaru dolenni gwe amrywiol drwy gydol y ddogfen | Dolenni gwe blaenorol ddim yn gweithio |
| | | |
| | | |
| 14 / 35 / 50 / 65 / 83 / 103 / 119 / 134 | Sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn berthnasol iddynt | Diweddaru'r testun i'w gwneud yn gliriach |
| 28 / 92 / 135 / 136 / 137 | Diweddaru dolenni gwe at y Taflenni Ffeithiau Themâu Trawsbynciol a ffeithluniau | Ddim ar gael mwyach ar wefan LlC felly cyngor i gysylltu â'r Tîm Themâu Trawsbynciol |
| 8 / 74 | menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ac Ymchwil ac Arloesi | Cynnwys testun ychwanegol sy'n deillio o Gomisiwn yr UE (2019) 'The European Research Area: advancing together the Europe of research and innovation'. |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | |
| 112 | Dileu dolen at Cymru Effeithlon | Ddim yn bodoli mwyach |
| Trwy'r ddogfen gyfan | Diweddaru dolenni gwe | Dolenni gwe blaenorol ddim yn gweithio |
| **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol** | | |
| Trwy'r ddogfen gyfan | Diweddaru dolenni gwe | Dolenni gwe blaenorol ddim yn gweithio |